# Y DINESYDD

Rhagfyr 2025/
Ionawr 2026

Papur Pobl Caerdydd a'r Fro

Rhif 503 £1.50

*NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA*




**Cogurdd a Phoburdd - tud. 26**

**Matthew Rhys yn dychwelyd i Gaerdydd - tud.6 a 9**




Tanysgrifiwch yma

# Y DINESYDD


**Golygydd**
**Manon Phillips**

***Golygyddion Chwefror***
***Eirian a Gwilym Dafydd***

Cyfraniadau erbyn **27 Ionawr** at:
eirianagwilym@gmail.com

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria, Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau:
Dr David Charles
david.charles1040@gmail.com
7 Vaughan Avenue, Llandaf, Caerdydd, CF5 2HR

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

e-bost:
ydinesydd@hotmail.com

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## Cofio Gwilym Roberts



Bu farw Gwilym ar ddydd Mawrth, 4 Tachwedd wedi salwch byr yn Ysbyty'r Waun.

Cynhaliwyd ei angladd fawr yng nghapel Beulah Rhiwbeina, bore Gwener, 5 Rhagfyr.

Roedd Gwilym yno yn rhifyn cyntaf *Y Dinesydd*, Ebrill 1973, tudalen 3 – ei destun oedd 'Addysg Feithrin Gymraeg Caerdydd.'

Ymddengys taw enw Gwilym Roberts yw'r amlycaf yn ein papur bro ers dros hanner canrif ac yn awdur miloedd lawer o eiriau ar hyd y daith.

Felly priodol ac amserol fydd cofio a diolch am ei fywyd llawn gweithgarwch o blaid y Gymraeg yn rhifyn mis Chwefror.

Rydym wedi gwahodd sawl un i lunio gair er cof amdano a chyfraniadau gwerthfawr eisoes wedi dod i law: dau gyfaill o Batagonia, Alun Guy, Carole Bradley, Joan Wright cymdoges, englynion Annes Glynn a John Emyr. Mae Julie Jones, Bryan James, Iolo Walters ac E. Wyn James wedi cydsynio i anfon gair.

Bydd croeso cynnes i eraill. Roedd cylch ei gydnabod yn eang. Os oes 'stori fach' gyda chi am Gwilym yna anfoner eich cyfraniadau ymlaen cyn 20 Ionawr i sylw golygyddion mis Chwefror, eirianagwilym@gmail.com a diolch i bawb am eich cydweithrediad.

Fel pwyllgor a'r swyddogion, golygyddion misol a phawb o bobl papur bro *Y Dinesydd a'r Fro*, rydym yn ddiolchgar iawn am fywyd a gwaith ein cyfaill a'r cymwynaswr mawr Gwilym Roberts.


**Nid yw pwyllgor *Y Dinesydd* o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan y cyfranwyr.**


## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bont-faen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd Frenhinol
**IECHYD DA**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn Natur



## Harbwr Bangor

Gethin Jenkins-Jones

### Harbwr Bangor - magned i adar o bob pwynt y cwmpawd

Mae hi nawr wedi bod yn ddwy flynedd ers i mi symud o Gaerdydd i Fangor, ac mae'r cyfnod wedi bod yn andros o hwyliog ar y cyfan (yn enwedig darganfod diwylliant cryf Cymraeg). Fodd bynnag, yn ystod fy 18 mis cyntaf yna, treuliais ond tua hanner o fy amser ym Mangor ei hun, diolch yn bennaf i berthynas pellter hir a thrwy drwy dreulio wythnosau yn swyddfa Lloegr neu ar wyliau yn Ewrop. Mae estyn fy ngwreiddiau wedi bod yn broses araf bach (efo tywydd ofnadwy 2024 ddim yn help!) ond o'r diwedd, dwi nawr yn teimlo'n wirioneddol gartrefol ym Mangor. Siŵr o fod uchafbwynt yr hydref eleni i mi yw cael yr amser i ddarganfod a mwynhau'r natur tu fas i'n drws ffrynt, yn harbwr Bangor ei hun, a dyna beth dwi am rannu efo chi heddi.



*pioden y môr Llun; Liz Cuttings*

Rhywbeth diddorol ddaeth i fy mhen yn ddiweddar yw bod yr adar yn mudo i'r harbwr am y gaeaf o bob cyfeiriad y cwmpawd, efo rhai yn hedfan filoedd o filltiroedd i gyrraedd yma. Ers diwedd yr haf dwi wedi bod yn arolygu'r lle yn fisol ar gyfer yr arolwg adar gwlypdir y BTO, ac (er llai na 100 metr o fy nhŷ!) dwi wedi cael syndod y fath niferoedd o adar sydd i'w gweld yno. Felly, beth am i ni gychwyn ein ffordd rownd y cwmpawd, a gweld pa adar a ddaw i ni yno.

Mae'n anodd credu bod adar yn mudo i Fangor o'r gorllewin, oherwydd anferthwch mor yr Iwerydd, ond mae yna ddau aderyn sy'n gwneud y siwrne. Mae Pibydd yr Aber - aderyn rhydio llwyd a plwmp - yn nythu ar dwndra Gogledd Canada cyn hedfan i Brydain. Maent i'w gweld mewn niferoedd anferth yn aberoedd dwyrain Lloegr, lle maent yn ymgasglu yn eu miloedd. Yn Harbwr Bangor maent gan amlaf yn ei dwsinau, ond efo lwc maent yn weddol hawdd i'w gweld. Mae'r ail aderyn, y Gŵydd Ddu - gŵydd weddol fychan sy'n hoff o bori ymysg y gwymon - yn dod o orllewin yr ynys las. Hon yw fy hoff ŵydd i, o bosib oherwydd y ffaith mae'n rhaid iddynt amddiffyn eu hwyau a'u cywion o ddannedd miniog eirth gwyn a llwynogod arctig!



*Harbwr Bangor Llun: Dave Dixon*

Wrth symud y cwmpawd i'r gogledd, mae mwy o adar yn ymuno â ni. Mae'r rhan fwyaf o biod y môr sy'n gaeafu yn yr harbwr yn dod o'r Alban. O bosib aderyn mwyaf cyffredin y llaid, maent i'w gweld mewn niferoedd enfawr yma (tua 2,000). Mae Gwylanod y Gweunydd hefyd yn dod yma o'r Alban. Gwylan giwt efo llygaid du fel tegan tedi, maent i'w gweld yn eistedd ar y môr neu'n plymio i lawr i'r dŵr am bysgod bychain. Ond siŵr o fod yr aderyn mwyaf eiconig o'r gogledd yw'r Rhostog Cynffonddu, sy'n nythu ar ddolydd gwlyb Gwlad yr Iâ cyn teithio yma. Mae'r adar yna wedi dod yn fwyfwy cyffredin yn yr ardal yn ddiweddar.

Gyda chyfandir cyfan i'r dwyrain, nid ydy'n syndod bod llawer o adar yn dod yma o'r cyfeiriad hwnnw. Mae'r Chwiwell - hwyaden oren ac arian - i'w gweld ym Mangor yn eu cannoedd yn ystod misoedd oeraf y flwyddyn. Yn bennaf o Sgandinafia, mae bron hanner poblogaeth y byd yn dod i Brydain yn y gaeaf. Hefyd o Sgandinafia, ond yn llawer llai cyffredin, yw'r Hwyaden Llygaid Aur. Ond lan at ddwsin byddwch yn debygol o'u gweld, ar y môr ger y pier yn deifio am falwod y môr. Ac ni allaf beidio crybwyll y Gylfinir, a'i galwad egnïol sy'n aml ar y cliw.

A oes adar yn dod o'r de? Wedi'r cyfan, nid ydy'n gwneud synnwyr i aderyn deithio i fyny i Fangor yn y gaeaf, yn hytrach nag i fwynder y gwledydd deheuol. Wel, mae yna un - Corhedydd y Dŵr. Mae'r aderyn yma yn byw ar ben mynyddoedd uchel y Pyreneau ar Alpau, cyn mudo i ardaloedd yr arfordir. Mae Bangor yn sicr yn fwy mwyn nag amodau 2,500 metrau uwchben lefel y môr, felly mae hynny'n gwneud synnwyr o leiaf!

Felly, am le! Ac efo tymor cyfan y gaeaf o'm blaen, tybed beth arall fydd i'w gweld ger fy nrws ffrynt yma dros y misoedd nesaf, ac o ba fan y byd a deithir.

# Pobol y Rhigwm

**Cywydd** neu **delyneg**, **chwe llinell**, ar gyfer gwasanaeth Nadolig

Wrth i'r dail brysur grino ar borfa llwydrewedig, nid ffarwelio'n hiraethus â'i hoff dymor wna'r beirniad, ond cofleidio cyffro tymor yr Adfent, penllanw misoedd ola'r flwyddyn. Dyna, wrth gwrs, wnaeth symbylu testun y mis hwn, a diolch am gael deg o gynigion. Ches i mo'n siomi wrth agor unrhyw un o barseli'r rhigymwyr, ond mae'n deg dweud bod rhywfaint o agendor rhwng y goreuon a'r gweddill. 'Nes i ofyn yn bwrpasol am rywbeth ar gyfer *gwasanaeth* Nadolig, yn y gobaith o gael myfyrdodau amserol, yn hytrach na charolau bach (mae cyfoeth o'r rheini yn rhifyn 493 o'r *Dinesydd*!). Dyna, yn ei hanfod, sy'n peri bod ambell gynnig yn agosach at y brig, y tro hwn. Fel arfer, gair am bob un yn ôl y drefn ges i nhw, cyn ffocysu ar y goreuon:

Telyneg *Carol 2* yw'r un fwya rhydd yn y casgliad, er bod 'na odl wedi'i phwytho drwyddi , hefyd – "mae'n Nadolig ym mhobman", yn ôl y llinell gynta, ac mae'n cloi drwy ein hatgoffa i gofio'r "Mab Bychan". Mae arwyddocâd geni Iesu wedi'i fynegi'n effeithiol yng nghywydd *Dysgwr* ond, gan wisgo fy nghap athro cynganeddu am ennyd, os oes 'collnod r' ar ddiwedd llinell gynta cwpled cywydd, mae angen ei hateb yn y llinell ddilynol (e.e. cwpled Ceri Wyn Jones, "yn ddi-hid y clywodd e'**r** / baril yn hollti'**r** bore"). At hynny, cofiwch amrywio patrwm terfyniadau 'acen/diacen' y llinellau. Mae geiriad cywydd *Rhyfeddu* yn wreiddiol, ac mae'r saib rhwng llinellau 3 a 4 yn llwyddiannus. Mae defnyddio 'a/â' bedair gwaith mewn cywydd chwe llinell yn ormod o sillafau llanw, ond alles i ddim llai na *rhyfeddu* at chwip o gwpled clo, "â gwyrth rhoi o groth rhiain / y Mab fel bachgennyn main". Telyneg solet ei mydryddiaeth, sy'n crynhoi'r Nadolig cynta, a gafwyd gan *Gweddïwr*. Mae "morwynig", "angylion", "bugeiliaid" a "doethion" oll yn gwneud ymddangosiad, yn ôl y disgwyl, ond mae'n rhaid canmol y ddwy linell glo â'u hodl gyrch drawiadol, "gweddïwn am brofi o gariad / y Ceidwad a gwledd Ei fendithion". Digon confensiynol yw sylwedd cywydd *Mordecai*, "Baban oedd i'n hachub ni / A dwyn drwy'i ewyllys da / Yfory r'ôl Calfaria", ond mae yma gynganeddwr llithrig, sy'n amlygu'i hun yn y llinell nodedig, "Iesu cu tywysog hedd" (seindraws!). Mewn mis gwannach fe fyddai'n agosach at y brig – ac ar y gair, dyma ni'n dod at y pump sy'n codi'n uwch y tro hwn, gan mai nhw, ym marn y beirniad, yw meddyliau mwya creadigol y gystadleuaeth.

Dewch at breseb sy'n croesawu
teithwyr gwantan o bob llun,
dewch at breseb sy'n ddigymar
mewn hen fyd â'i ddyrys boen,
dewch at breseb sy'n rhoi cyfle
am dangnefedd gyda'r Oen.

*Ceiswyn*

Ar y darlleniad cynta, telyneg goeth, os fymryn yn ragweladwy oedd cynnig *Ceiswyn*. Ddes i nôl ati, a sylweddolais ei bod hi'n haeddu mwy o glod na hynny. Mae'r dechneg (gref) o ailadrodd "dewch at breseb", sy'n efengylaidd ei dinc, bron, yn celu detholiad gofalus o ymadroddion yn llinellau 2, 4 a 6 sy'n berthnasol iawn yn y dwthwn hwn, â'i "deithwyr gwantan" a'i "ddyrys boen". Mae'r preseb yn cynnig "tangnefedd". Fedra i ddim meddwl am air mwy perthnasol i gyfleu gobaith y Nadolig mewn oes mor dywyll, da iawn wir.

Daw un bach i strach y stryd –
Un dwyfol glyma deufyd;
Un di-nam mewn crud di-nod –
Eto, heno, hud hynod
Sy'n ein gwadd i wledd addas
Yr Un lleiaf mwyaf mas.

*Melchior*

Cywyddwr o'r iawn ryw yw *Melchior*, wnaeth gynnig goleddf gwreiddiol a deallus ar ddigwyddiadau Bethlehem. Melchior, wrth gwrs, oedd y Gŵr Doeth a ddaeth ag aur i Iesu, a dyna osod cyd-destun y cywydd. Mae'r bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn dal i fod yn boenus o amlwg yn yr oes sy ohoni, ond "Un dwyfol glyma deufyd" yr adeg hon o'r flwyddyn. Mae'n gywydd sy'n ein tywys o "strach y stryd" i "wledd addas", ac ydy, mae'r llinell glo'n neilltuol.

Cynigion arbennig gan *Ceiswyn* a *Melchior* fel ei gilydd, sy'n tystio i safon y tri gyrhaeddodd bodiwm pefriog y Nadolig hwn.

Draw o'r byd der i'r beudy
ac o'r dorf i gwr Ei dŷ.
Yn isel mewn rhesel rhad
mewn cadach y mae'n Ceidwad
a gwêl drwy'r gwyll y Golau
oddi fry'n Dduw i'w fawrhau.

*Ymwelydd*

Hoffais gywydd *Ymwelydd* yn fawr. Yn rhyfedd ddigon, mae adlais o gynigion *Ceiswyn* a *Melchior* yn y cywydd hwn, gyda'i fod yn ein hannog at grud Iesu i weld golud mewn oes lom. Mae'r cwpled yng nghanol y cywydd, a'r llinell "mewn cadach y mae'n Ceidwad" yn arbennig o gryf, ond ei gryfder pennaf – a'r hyn sy'n ei atal rhag llithro i dir ystrydeb – yw'r mynegiant llafar, agos-atoch, sy'n argyhoeddi ar gynghanedd.

Ffoaduriaid ddaw eto,
a'r Ŵyl wedi gwawrio,
rhown ninnau ein croeso yn glyd i bob un
estynnwn ein dwylo
rhaid peidio anghofio
bu Iesu'n ffoadur ei hun.

*Carol 1*

*Carol 1* sydd â thelyneg orau'r gystadleuaeth o ddigon. Dyma fardd â deallusrwydd emosiynol amlwg, heb sôn am y gallu i weithio telyneg orffenedig. Mae'n adlais o'r gorchymyn yn Lefiticus 19:34, "y mae'r estron sy'n byw gyda thi i'w ystyried gennyt fel brodor o'ch plith; yr wyt i'w garu fel ti dy hun". Yng nghyd-destun y Nadolig, wrth gwrs, mae'r neges hon yn arbennig o acíwt, achos "bu Iesu'n ffoadur ei hun". Does dim angen dweud fod hon yn delyneg gwbwl amserol, o ystyried y rhethreg a glywn yn gyson, ddyddie hyn, ynghylch ceiswyr lloches – ymateb i hynny, dybia i, mae *Carol 1*. Diolch am delyneg feddylgar, hynod berthnasol, sy'n procio'r cydwybod.

Yng ngaeafau'r banciau bwyd
Fe wireddir y freuddwyd
A chawn ffiol llawn golud –
Gair yr Iôr yng ngwyrth hen grud –
I ddydd llwm cyfraddau llog
Daw Iesu yn dywysog.

*Y Grinch*

Er mor arbennig yw telyneg *Carol 1*, fedra i ddim

llai na gwobrwyo'r *Grinch* y tro hwn! Ffugenw hunanfychanol, o bosib, ond addas hefyd yng nghyd-destun y cywydd, o gofio mai'r creadur gwyrdd hwnnw wnaeth ddwyn y Nadolig! Mewn difri, dyma gywydd ffantastig. Darllenwch e yn ei gyfanrwydd, does 'na'r un geiryn wast, ac mae 'na drawiadau slic tu hwnt, e.e. llinellau 2 a 4. Adlais o Salm 23 yn ogystal, yn llinell 3! Yr eisin ar y gacen Nadolig yw'r sylwedd: Fel *Carol 1*, mae'r *Grinch* wedi llwyddo'n ddiymdrech i asio hanfod stori'r Geni â thrafferthion yr oes sy ohoni. Mae'r cwpled clo'n feistrolgar, gyda daioni'r preseb a'r neges Gristnogol yn drech nag oes lle mae caledu ariannol yn faen tramgwydd i gynifer. Styriwch sawl sefydliad Cristnogol sy'n rhedeg banc bwyd, ac yn gofalu am yr anghenus yn ein prifddinas yn unig. Delfrydol ar gyfer gwasanaeth Nadolig yn 2025, llongyfarchiade mawr!

Gan ddymuno Nadolig llawen a heddychlon i holl ddarllenwyr y *Dinesydd*, ni all y colofnydd hwn beidio â chloi heb deyrnged fechan i'r colofnydd – a'r Cymro – o fri, a'n gadawodd ni ar ddechrau'r Mis Du:

Pori'n ddyfal, heb alar
fu'n job heb golofn G. R.

*Aron Pritchard*

**Enillydd Tachwedd**
**Alun Tobias, Caerdydd**

**Cystadleuaeth Rhagfyr / Ionawr**

**Limrig** yn cynnwys y llinell,

"bydd pethe'n wahanol eleni"

*Anfonwch eich cynigion erbyn 25 Ionawr :*
*eirianagwilym@gmail.com Gwobr Tocyn llyfr: £10*

## Clwb Pêl-droed Cymric yn Cofio Gareth Huws

Mae blwyddyn wedi mynd ers colli Gareth Huws, Pentyrch (a'r "Mochyn Du"). Blwyddyn o ymgynefino â'r golled i'r teulu yn ddi-os, ond blwyddyn hefyd i gyn-chwaraewyr Clwb Pêl-droed Cymric ddod i delerau fod un o'r "Cewri" wedi diflannu o'u mysg.

Oedd, 'roedd ei bresenoldeb ar y cae yn ystod y cyfnod hir o wasanaeth a roddodd i'r Clwb yn un hynod o werthfawr, gyda phawb a fu'n chwarae gydag o yn mynegi eu parch tuag ato - yn un a fyddai'n ysbrydoli, ac yn canmol a diawlio yn yr un ebychiad. Ac ef, wedi iddo roi ei esgidiau pêl-droed o'r neilltu, fu'n gyfrifol am gynnal diddordeb y cyn-chwaraewyr yn y Clwb byth ers hynny, gan drefnu nosweithiau cymdeithasol a chiniawa Nadolig, fel bod y fflam yn cael ei chynnal, a'r atgofion yn cael eu hymestyn o gyfarfod i gyfarfod.

'Roedd cael Cinio dathlu 50 penblwydd y Clwb yn 2019 yn un o'r digwyddadau a roddodd y pleser mwyaf iddo, ac un o'r pethau olaf y bu'n ymwneud ag o cyn ei farwolaeth oedd trefnu, ar raddfa llai, i'r cyn-chwaraewyr ymgasglu i ddathlu cyrraedd 55 mlynedd ers sefydlu'r Clwb, gan synhwyro efallai y byddai nifer o'r criw a sefydlodd y Clwb yn 1968/69 wedi ymadael




a'r fuchedd hon erbyn 2029 (y "trigeinfed" penblwydd).

Ysywaeth, fu dim dathlu, a damcaniaeth Gareth wedi ei wireddu am ei absenoldeb ei hun y tro yma! Ond bydd y cof am Gareth yn parhau yn hanes Clwb Cymric am flynyddoedd i ddod, oherwydd dymuniad y cyn-chwaraewyr oedd nodi ei gyfraniad i'r Clwb trwy gyflwyno iddynt "Tlws Gareth Huws", a hwnnw i'w roi i ddewis "chwaraewr y flwyddyn" ymysg aelodau'r tim cyntaf.

Trosglwyddwyd y tlws i'r Clwb ar y 1af o Dachwedd, yng nghwmni gweddw Gareth, Morfydd Huws, ynghyd â'i mab Rhodri, a Myfi yr wyres (a do fe enillwyd y gêm yn erbyn Pencoed o 4 gol i 1!).

*Rhodri-Gwynn Jones*



***Rhai o gyn-chwaraewyr gwreiddiol y Cymric***

# Merched y Wawr
# Y Felin

**'Nabod Cymru' gyda Frank Holloway**

Tybed pa mor dda ydych chi'n adnabod gweddill Cymru?

Fel hanesydd lleol mae Frank Holloway wrth ei fodd yn gwneud ymchwil pellach ar lefydd, adeiladau ac enwogion sydd wedi gadael eu marc y tu hwnt i Gaerdydd. Yn ei gyflwyniad 'Nabod Cymru' aeth ati i dynnu ei luniau ei hun o lefydd er mwyn rhannu stôr o wybodaeth a ffeithiau newydd, a braf oedd gweld pawb yn crafu pen a cheisio dyfalu pwy a ble oedd y llefydd dan sylw a'r stori tu ôl iddynt.

Cafwyd gwibdaith hanesyddol ganddo ar draws Cymru gan ymweld â Phontrhydyfen a hanes Richard Burton, hanes Abergwaun a'r goresgyniad Ffrengig yn 1797, atyniadau Llangollen gan gynnwys Castell Dinas Bran, hanes Yr Ysgwrn, Pontypridd a Hen Wlad fy Nhadau, llun Banksy "Season's Greetings' ym Mhort Talbot, Capel Salem Pwllheli gyda Keith Brymer-Jones, Cofeb y Mimosa yn nociau Lerpwl, Tŷ Llanelli, Bedd Lloyd George Llanystumdwy, Blaenau Ffestiniog prifddinas y diwydiant llechi, Aber Mawddach, Tŷ Mawr Wybrnant Penmachno, hanes sefydlu'r Llyfrgell Genedlaethol Aberystwyth a sawl lle arall!



*Siwan Hill, Frank Holloway ac Eiry Davies*

Diolch o galon i Frank am noson hwyliog a phenigamp. Ry'n ni gyd wedi elwa gymaint o'i wybodaeth helaeth ac yn cydnabod pwysigrwydd gwerthfawrogi yr hyn sydd o'n hamgylch yng Nghymru fach.

*Catrin Wyn Saunders*

## Matthew Rhys a Caryl Parry Jones yn lansio drama gerdd newydd Cwmni Theatr yr Urdd

Yn ystod ei ymweliad diweddar â Chaerdydd, ymunodd Matthew Rhys â Caryl Parry Jones i lansio *Calon*, drama gerdd newydd Cwmni Theatr yr Urdd mewn, digwyddiad arbennig yn Amgueddfa Sain Ffagan.

O flaen cynulleidfa eiddgar, rhannodd Matthew ei brofiadau cynnar gyda'r Urdd gan egluro sut y rhoddodd yr Urdd iddo'r hyder i berfformio a'r cyfle i ddysgu trwy wneud. Fe anogodd bob person ifanc sy'n angerddol dros ganu, actio a chreu i ymuno â chast *Calon* ac i fod yn rhan o 'rywbeth arbennig'.

Cafodd hefyd gyfle i holi Caryl am y broses o greu'r ddrama gerdd gyfoes, fydd yn llawn dop o'r caneuon cyfarwydd a phoblogaidd a ysgrifennwyd ganddi dros gyfnod o ddeugain mlynedd, gan gynnwys *Shampw*, *Space Invaders*, a'r anthem eiconig *Calon*.

*Calon* fydd sioe fwyaf Cwmni Theatr yr Urdd ar ei newydd wedd, ers ei ail-lansio yn ystod blwyddyn canmlwyddiant y mudiad yn 2022 diolch i gefnogaeth o £1.2m gan Lywodraeth Cymru.

Disgwylir i gast a chriw o dros 100 o bobl ifanc rhwng 15 a 25 oed berfformio a gwireddu'r sioe yn Theatr Donald Gordon, Canolfan Mileniwm Cymru rhwng 27- 29 o fis Awst 2026.

Mae'r cynhyrchiad yn cael ei lwyfannu mewn partneriaeth â Theatr Cymru, gan ddod ag arbenigedd creadigol a chred gytûn mewn meithrin talent ifanc ledled Cymru. Fel rhan o'r bartneriaeth arbennig hon, bydd Rhian Blythe, Cyfarwyddwr Cyswllt Theatr Cymru, yn cyfarwyddo *Calon*, gan ddod â'i phrofiad helaeth fel cyfarwyddwr ac actores.

Yn ogystal â pherfformio, bydd cyfle i'r bobl ifanc weithio ar bob elfen o'r gwaith llwyfannu, o'r gwaith technegol i gynhyrchu, gwisgoedd a choluro. Cânt eu mentora trwy'r broses o greu'r sioe gan artistiaid a chriw llwyfan proffesiynol yn y maes.

Mae'r Urdd yn croesawu ceisiadau gan unigolion 15-25 oed i ymuno â'r cast trwy gysylltu â'r tîm cynhyrchu drwy'r wefan (urdd.cymru/calon), ac mae tocynnau i'r perfformiadau bellach ar werth.

*Lansiad Calon*



# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

**Dolig Plentyndod a'r Ddoli Glwt**



Hannah Roberts oedd y cwmni yn ein cyfarfod diwethaf a chawsom gyflwyniad hwyliog am ei hatgofion am fendithion bychain y Nadolig pan oedd yn blentyn yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Un o Dre-boeth, Cwm Tawe yw Hannah yn wreiddiol a threuliodd ei gyrfa fel athrawes yn y Barri.

Eglurodd sut y rhoddent werth ar bopeth a feddent fel y cylchgrawn wythnosol *Radio Times* am ddwy geiniog y copi, gyda'r clawr lliwgar gan artistiaid dawnus. Dangosodd enghreifftiau ohonynt wedi eu fframio – gymaint oedd eu gwerth a'u harwyddocâd mewn dyddiau o brinder.

Disgrifiodd y gwasanaethau a gynhaliwyd o dan ddaear a symlrwydd y gwasanaethau hynny heb goed Nadolig na chlychau na goleuadau ar ffenestri. Yna dangosodd eitemau a roddai liw i'r Ŵyl, megis yr addurniadau papur a rhai o'r anrhegion syml a wnaed o bren wedi'u peintio â phaent llachar, fel yr hwyaden mewn coch a gwyn. Gwelsom hefyd eitemau o ddillad isaf a ddaeth yn boblogaidd i gadw'n gynnes a'r sanau neilon y daeth y milwyr â hwy i Gymru o America.

Wedi sôn ymhellach am y rheidrwydd i gynilo a'r math o fwyd oedd ar gael, cawsom ddarlleniadau difyr o'i dwy gyfrol o gerddi, *Cadeiriau Bach* a *Blas y Nadolig*.

Difyr dros ben oedd ei disgrifiad ohoni yn cipio Cadair Eisteddfod Castell Newydd Emlyn un prynhawn, ac yna, yn yr hwyr yn ennill coron yn Eisteddfod Pontrhydfendigaid. Yna cyflwynodd ni i'w doli glwt, Miriam, oedd yn ffrind iddi yn nyddiau plentyndod. Y ddoli glwt, ac nid Hannah, sy'n ffitio i'r dim i un o'r 29 cadair a enillodd. Sodrodd y goron ar ben y ddoli, er mawr ddifyrrwch i'r gynulleidfa.

# Merched y Wawr Bro Radur

**Pwyllwch a Meddyliwch!**

Yn yr oes ddigidol yr ydym yn byw ynddi, derbyniwn sawl neges testun, e-bost a galwadau ffôn bob dydd. Heb amheuaeth y mae'r gallu i gysylltu â gymaint o'n teulu a'n ffrindiau o fewn ychydig eiliadau yn un o fendithion mawr technoleg. Gallwn hefyd reoli system wresogi ein cartrefi neu weld pwy sydd wrth ein drws ffrynt ar ein ffonau. Ond gwyddom hefyd fod pob datblygiad o'r fath yn dod law yn llaw â phroblemau. Y mae'r sgamwyr ym mhobman ac yn defnyddio pob tric a feddant er mwyn ceisio ein twyllo a dwyn ein gwybodaeth a'n harian.

O ganlyniad roedd croeso brwd i'n siaradwr gwadd, Wyn Jones, ddechrau mis Tachwedd. Bu'n gweithio yn y maes cyfrifiadureg ers hanner can mlynedd bellach, gan ddechrau ei yrfa fel rhaglennwr meddalwedd dan hyfforddiant. Ers hynny gweithiodd i nifer o gwmnïau mawr.

Trwy ei sgwrs cawsom gynghorion lu ar sut i osgoi y sgamwyr, gan gynnwys peidio â chredu unrhyw beth y dywed rhywun wrthym ar y ffôn, peidio â chlicio ar linc mewn e-bost os nad ydym yn sicr ohono, defnyddo cyfrineiriau gwahanol i wahanol gyfrifon a gwneud y rheiny yn anodd iawn i'w dyfalu, sicrhau os ydym yn prynu unrhyw beth ar lein ein bod yn sicrhau dilysrwydd y wefan, edrych allan am godau QR ffug ar beiriannau talu am barcio a pheidio ag ymateb i neges WhatsApp oddi wrth rywun nad ydym yn ei adnabod. Dylem hefyd ddefnyddio meddalwedd gwrth-feirws ar ein cyfrifiaduron a systemau dilysu dau ffactor. Troesom adref gydag un neges glir – pwyllwch a meddyliwch!

Cystadlodd dau dîm o'r gangen yn y cwis hwyl blynyddol eleni a daeth un ohonynt yn drydydd yn y rhanbarth. Roedd ail dîm y gangen ond un marc ar ôl y tim cyntaf. Felly llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran.

# Cymrodorion Caerdydd

**Radicalaiaid Portmeirion a'r Siosialwyr Siampên**

Cafwyd noson hynod ddifyr yng nghwmni'r Athro Merfyn Jones ar Dachwedd 7fed ar Zoom. Gyda phentref Portmeirion yn dathlu can mlynedd ers i Clough Williams-Elis fynd ati i gynllunio ac adeiladu'r pentref unigryw roedd y cyflwyniad *'Radicalaiaid Portmeirion, Y Sosialwyr Siampên'* yn un amserol iawn.

Er cyfeirio tipyn at Clough Wiliams-Elis, ei wraig Amabel Strachey oedd canolbwynt y sgwrs. Clywyd am ei hanes yn troi ei chefn ar gyfrifoldebau'r 'Spectator' sef papur ei thad, ei hymwneud â'r blaid gomiwnyddol a rhai o brif gymeriadau'r cyfnod rhwng y ddau ryfel byd a'i hymweliadau ag Ewrop â'r Undeb Sofietaidd. Darluniwyd hefyd nifer o gymeriadau lliwgar a radical eraill o'r cyfnod a ddenwyd i'r ardal; yn artistiaid, llenorion a meddylwyr praff. Dyma gyflwyniad a fydd yn aros am hir yn y cof.

Cynhelir cyfarfodydd Cymrododrion Caerdydd fel arfer nos Wener gyntaf bod mis ar Zoom. Mae croeso i bawb ymuno. Cysyllter â: cymrodorioncaerdydd@gmail.com

# Yr Ŵyl Cerdd Dant

## Merched Plastaf

Unwaith eto, cafwyd dechrau gwych i'r flwyddyn academaidd newydd.

Llongyfarchiadau i Barti Eiriana, a ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth Parti Gwerin Oedran Uwchradd yn yr Ŵyl Cerdd Dant yn Aberystwyth, ddechrau mis Tachwedd, a da iawn hefyd i'r Triawd Cerdd Dant a'r Grŵp Cerdd Dant Agored, mewn cystadleuaeth eithriadol o safonol.

Roedd y merched wrth eu boddau, hefyd, yn cymryd rhan yn ffilmio *Dechrau Canu Dechrau Canmol* yn Eglwys St Augustine, Penarth ddiwedd mis Tachwedd, a bydd cyfle i wrando arnynt ar y rhaglen nos Sul 21 Rhagfyr.

Cynhelir Cyngerdd Nadolig y Côr nos Fercher 17 Rhagfyr yn Eglwys St John's Canton, ac mae'r merched yn edrych ymlaen at eich croesawu, pan fydd cyfle i chi ymlacio, mwynhau a theimlo naws y Nadolig yn eu cwmni.

## Côr Canna

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Gôr Merched Canna a ddaeth yn fuddugol yn y gystadleuaeth Côr Gwerin yn yr Ŵyl Cerdd Dant yn Aberystwyth – y merched yn amlwg wedi cael hwyl arni.

## Tair Gwobr Gyntaf i Ysgol Pwll Coch

Llongyfarchiadau gwresog i Ysgol Pwll Coch a ddaeth yn fuddugol mewn tair cystadleuaeth yn yr Ŵyl Cerdd Dant yn Aberystwyth ym mis Tachwedd. Nhw gipiodd y wobr gyntaf yn y Parti Alaw Werin, y Parti Dawnsio Gwerin a'r Parti Cerdd Dant. Tipyn o gamp! Mae Côr yr Ysgol hefyd wedi bod yn brysur yn ddiweddar yn diddanu cynulleidfaoedd lleol. Fe gawson nhw gyfle yn i berfformio yn Eglwys Sant Ioan, Treganna, ar achlysur goleuo'r Goeden Nadolig a phawb wedi mwynhau eu perfformiad. Diolch i'w hyfforddwyr am yr holl waith caled yn eu paratoi.


Ysgol Pwll Coch


Merched Plastaf


Côr Canna

## Matthew Rhys - seren Hollywood yn dychwelyd i Gaerdydd

Roedd Matthew Rhys yn ôl yng Nghaerdydd ddiwedd Tachwedd yn perfformio 'Playing Burton' drama un-dyn am Richard Burton - Welsh National Theatre.

Roedd yma i berfformio mewn cyfres o saith sioe ledled Cymru gan gynnwys sioe yn Theatr Reardon Smith yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd ble cafwyd sesiwn holi ac ateb arbennig rhyngddo â Michael Sheen yng Nghanolfan Mileniwm Cymru.

Matthew oedd y brif ran yn *Elfis*, sioe gerdd Ysgol Glantaf yn 1993 pan oedd yn 17 mlwydd oed. Adroddwyd ar y perfformiad yn Y Dinesydd gan Nia Hall Williams.



DRAMA IEUENCTID

Y BRENIN YN ROCIAN YN EI SGIDIE SWED GLAS

NIA HALL WILLIAMS

MAE'N anodd dod o hyd i eiriau digonol i ddisgrifio'r perfformiad gwefreiddiol o Elfis, sioe gerdd gan Emyr Edwards, a gafwyd gan ddisgyblion Ysgol Glantâf ddiwedd Chwefror.

Y cyfan y gellid ei wneud yw canmol y cynhyrchwyr, yr actorion, y cerddorion a'r dawnswyr i'r cymylau, gan enwi un aelod o'r cwmni'n unig, sef Mathew Evans am ei bortread o Elfis ei hun. Dyma seren heddiw i'w chymharu â seren ddoe.

Ar ddiwedd y noson safodd y gynulleidfa (rhai yn eu plith yn ddagreuol) i gymeradwyo'r perfformiad am funudau hir. Ar ran pawb, ein llongyfarchiadau a'n diolch i'r ysgol am noson i'w chofio am byth.

• *Yn y llun i'r chwith, Elfis: Mathew Evans yw'r Brenin*

THEATR

ANHAWSTER

Iolo Jones yn chwarae'n fyw ei gerddoriaeth a gomisiynwyd yn arbennig i gefnogi arddull gynil

***Rhifyn mis Mawrth, 1993 Y Dinesydd***

'Mae'n anodd dod o hyd i eiriau digonol i ddisgrifio'r perfformiad gwefreiddiol o Elfis, sioe gerdd Emyr Edwards.'

'Y cyfan y gellid ei wneud yw canmol y cynhyrchwyr, yr actorion, y cerddorion a'r dawnsiwyr i'r cymylau, gan enwi un aelod o'r cwmni'n unig, sef Matthew Evans am ei bortread o Elfis ei hun. Dyma seren heddiw i'w chymharu a seren ddoe.'

Un sy'n cofio'r sioe Elfis yw Lydia Lambert a oedd yn y corws a'r grŵp dawns. Mae Lydia bellach yn gweithio i gwmni cysylltiadau cyhoeddus sydd wedi bod yn gweithio gyda Matthew a Welsh National Theatre. Yn ôl Lydia, roedd y sioe yn llawer o hwyl, roedd Matthew yn wefreiddiol fel Elfis ac roedd y gynulleidfa ar eu traed ar ddiwedd y sioe i gymeradwyo'r perfformiad – rhai yn eu dagrau.

Wedi i Matthew serennu yn sioe gerdd Elfis Ysgol Glantaf, fe ymgeisiodd a chafod ei dderbyn i ysgol ddrama RADA Llundain ac mae ei yrfa actio wedi mynd o nerth i nerth ers hynny.

Roedd yn wythnos brysur wrth iddo hefyd yn lansio 'Calon' gyda Caryl Parry Jones drama gerdd newydd Cwmni Theatr yr Urdd yn Amgueddfa Sain Ffagan.

Magwyd Matthew Rhys yn yr Eglwys Newydd a'i addysgu yn Ysgolion Melin Gruffydd ac Ysgol Gyfun Glantaf. Enillodd Emmy yn 2018 am y Prif Actor Rhagorol mewn cyfres Ddrama am ei rôl yn The Americans. Mae'n byw yn Efrog Newydd gyda'i deulu.

Mae ôl-rifynnau'r Dinesydd i'w gweld ar dinesydd.cymru

---

## Canolfan Canna i Gaerdydd

Cyhoeddwyd yng Nghwlwm Busnes Caerdydd ar 1 Rhagfyr gynllun ar gyfer sefydlu canolfan newydd yng Nghaerdydd.

Bydd y ganolfan yn un aml-bwrpas ac yn cael ei rhedeg ar y cyd gan Glwb Rygbi Cymry Caerdydd (CRCC) a Chlwb Pêl-droed Cymric ar safle ystafelloedd newid presennol y clwb rygbi ar gaeau Pontcanna.

Yn y digwyddiad yn Swyddfa Hugh James yn y Sgwâr Canolog, cyflwynwyd y cynllun gan Rhys ap William o CRCC, Rhys Meilir o glwb Cymric a Daniel Tiplady, Pennaeth Uned Iaith Gymraeg Met Caerdydd. Yn bresennol hefyd oedd y Cynghorydd Jamie Green a nodwyd bod Cyngor Caerdydd yn cytuno mewn egwyddor i drosglwyddo adeilad ystafelloedd newid Pontcanna drwy gronfa trosglwyddo asedau.

Mae bwriad yn ogystal i greu cartref newydd i'r Gymraeg yn y brifddinas ac i ymgeisio am gyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae gan y ganolfan gefnogaeth Caerdydd Ddwyieithog sef strategaeth Cyngor Caerdydd er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg yn y brifddinas.

Mae proses fanwl o'u blaenau a byddan nhw'n dechrau'r gwaith ymchwilio ac adolyu yn fuan. Yr opsiynau ar hyn o bryd yw dymchwel yr ystafelloedd newid presennol ac adeiladu adeilad newydd pwrpasol neu i addasu'r ystafelloedd newid presennol. Y bwriad yw ffurfio sefydliad corfforedig elusennol dan yr enw 'Canolfan Canna'.

Bydd CRRC a Chlwb Cymric yn chwilio am bartneriaid cymunedol gyda mudiadau Yr Urdd, Menter Caerdydd a Tŷ'r Cymry eisoes wedi mynegi eu cefnogaeth i'r cynllun.




***Rhys ap William, Rhys Meilir a Daniel Tiplady***

# Siaradwyr Cymraeg Newydd



*Dysgwyr ar deithiau*

## Gwilym Dafydd

**Tracy o'r Alban sy'n siarad yma**



Shwmae! Tracy dw i. 'Tracy o'r Alban' mae rhai pobl yn fy ngalw i achos fy mod i'n byw yno yn y gogledd pell, ond dw i'n byw yma yng Nghaerdydd hefyd! Mae'n gymhleth! Dw i'n treulio amser yma yng Nghymru i ymarfer fy Nghymraeg, ar ôl bod yn dysgu 'iaith y nefoedd' ers bron chwe blynedd. Felly, ydw i'n dod o Gymru? Ydw i'n dychwelyd at fy ngwreiddiau? Wel - nac ydw, sori. Mewn gwirionedd, ces i fy ngeni a fy magu yng Nghaint yn ne-ddwyrain Lloegr! Fel dwedais i - cymhleth!!

Dechreuais i ddysgu Cymraeg, fel llawer o bobl eraill, gydag Owen a'i bannas ar Duolingo. Dim ond tipyn o hwyl oedd hi ar y pryd. Ond yn ystod y pandemig yn 2020, des i o hyd i Goleg Gwent a'u cyrsiau ar-lein ac, ar ôl pum mlynedd ac amryw diwtoriaid ardderchog ac ysbrydoledig, mae 'tipyn o hwyl' wedi dod yn 'tipyn o obsesiwn'! Nawr, dw i ar y lefel lle dw i angen siarad, siarad, siarad! Ond does dim llawer o gyfleoedd i siarad Cymraeg yn yr Ucheldiroedd (dyw hynny ddim yn eich synnu chi dw i'n siŵr)! Felly, pan dw i yma yng Nghaerdydd, triaf i fynd i gymaint o sesiynau siarad neu 'clonciau' â phosib, o leiaf un bob dydd os gallaf i! Mae pob math o sesiynau a digwyddiadau ar draws y ddinas, yn ystod y dydd a gyda'r nos, a hefyd yn y Cymoedd a Chasnewydd. Maen nhw'n ffordd wych o fagu hyder yn yr iaith ac o hyrwyddo y Gymraeg yn y gymuned. Hoffwn i annog dysgwyr a siaradwyr o bob lefel i roi cynnig arnyn nhw. Mae'r grwpiau i gyd yn gyfeillgar a chefnogol iawn. Does dim ots os dych chi ddim yn gallu dweud llawer, neu wneud camgymeriadau, fydd neb yn poeni. Byddwch chi'n gwella yn gyflym, dw i'n addo! Baswn i'n dwlu gweld rhyw wynebau newydd yn y grwpiau dros y misoedd nesa. Mae'n hawdd fy adnabod - mewn unrhyw sesiwn, siŵr o fod fi fydd y person sy'n rhuthro i mewn yn hwyr!! Gellir ffeindio rhagor o wybodaeth am sesiynau yn yr ardal drwy wefannau Menter Caerdydd, Menter Casnewydd a Menter RCT, ac yma yn *Y Dinesydd* wrth gwrs.

Gwelaf i chi yn fuan gobeithio!

**O Lanrhath i Lan-y-bri – Cerdded Llwybr Arfordir Cymru**

Roedd Storm Claudia yn agosáu pan gychwynnon ni ar ein taith yn y car i Dalacharn, Sir Gaerfyrddin. Yn y gwynt a'r glaw, symudon ni i mewn i fwythyn gwyliau clyd. Drannoeth, cliriodd y tywydd mewn pryd inni ddechrau ar ein teithiau cerdded, pob un yn bump neu chwech milltir o hyd. Mae'r llwybr o Lanrhath i Bentywyn yn codi'n uchel uwchben y môr. Cawson ni olygfeydd godidog o Benrhyn Gŵyr yn y pellter. Gwelon ni draeth Pentywyn yn ymestyn am 7 milltir, ble torrwyd sawl record cyflymder ar dir gan mlynedd yn ôl. Heddiw, ardal filwrol ydyw. Felly, roedd rhaid i ni gadw at y briffordd brysur, gyda ffrwydradau o'r maes tanio yn swnio, i gyrraedd Talacharn. Roedd y llwybr yn wlypach o lawer ac yn fwdlyd iawn o Dalacharn i Sanclêr ac o Sanclêr i Lan-y-bri, yn enwedig ar ymyl y morfa heli. Cwrddon ni â ffermwr cyfeillgar ar lôn wledig ger Llan-y-bri. Dywedodd e mai ffordd hynafol o bwys oedd hon. Cysylltodd hi â dwy fferi dros Afon Tywi ac Afon Taf a ddefnyddiwyd gan bererinion ar eu siwrnai i Dŷ Ddewi. Rydyn ni wastad yn mwynhau mynd am dro ond mae nifer y gwyriadau ar y llwybr o ganlyniad i dirlithiadau ac erydu yn peri gofid i ni. Yn ddiau, mae newid yn yr hinsawdd yn cyfrannu at y broblem hon. Gobeithio bydd yr awdurdodau'n dod o hyd i ddigon o arian i atgyweirio ac i gynnal y llwybr mewn cyflwr da i'r dyfodol.

*Yvonne a Robert Heynes*



## Effaith Cynllun Sbarduno'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol arna i

Erthygl gan Josh Romain, Ysgol Gyfun Plasmawr

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol newydd ddechrau ar drydedd flwyddyn o'i cynllun sbarduno sef cynllun mentora ar gyfer siaradwyr Cymraeg Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Mi roeddwn i'n ddigon ffodus i fod yn rhan o'r cynllun llynedd ac mae ei effaith arnaf yn glir i'w weld. Pwrpas y cynllun yw ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o siaradwyr Cymraeg i fagu hyder a datblygu eu sgiliau Cymraeg wrth wneud penderfyniadau am y dyfodol. Mae'r Coleg yn dangos i bobl ifanc yr opsiynau ar ôl ysgol sydd ar gael yma yng Nghymru, a thrwy'r cynllun sbarduno maent yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg o gefndiroedd mwyafrif byd eang, fel fi, yn cael cefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg gan fentoriaid sydd hefyd o gefndir mwyafrif byd-eang. Ffeindiais hyn yn hynod o fuddiol gan fy mod yn gyfforddus ac yn hyderus fod fy mentor yn gallu uniaethu gyda rhai o'r heriau rwyf yn eu hwynebu.



Roedd y cynllun wedi ei rannu ar draws pum sesiwn digidol ac roedd rhyddid llwyr imi siarad am unrhyw beth yr hoffwn, o opsiynau prifysgol, sut i gydbwyso bywyd ysgol a bywyd hamdden yn y chweched dosbarth i hunaniaeth. Yn ystod un o'r sesiynau, codais gwestiwn yr oeddwn wedi bod yn meddwl llawer amdano ar y pryd sef 'A yw hi'n amser i ni symud ymlaen o'r term Cymry Cymraeg?' ac ar ôl siarad amdano, gan esbonio sut yr oeddwn yn teimlo ei fod yn awgrymu bod haenau i Gymreictod o ganlyniad i sut y'i defnyddiwyd yn y gymdeithas, awgrymodd fy mentor imi ysgrifennu blog amdano. Felly ysgrifennais flog a gafodd ei gyhoeddi ar wefan *Golwg360*, cyn imi ysgrifennu fersiwn Saesneg ar gyfer y wefan *NationCymru* er mwyn sicrhau fod materion am y gymdeithas yn hygyrch i bawb. Roedd gweld ymateb pobl ar y cyfryngau yn ddiddorol ac mae wedi fy ngalluogi i weld pethau o bersbectifau amrywiol.

Ers hynny rwyf wedi ysgrifennu ar amryw o faterion eraill a dechrau sioe radio fy hun yn y Gymraeg o'r enw Y Record gan fod yr iaith Gymraeg yn rhan anferthol o fy hunaniaeth. Mae'r Coleg Cymraeg wedi fy annog i ystyried opsiynau yng Nghymru wrth imi fynd ati i gynllunio fy nghamau nesaf yn fy mywyd ar ôl i fy mentor fy annog i fynegi fy hun trwy'r Gymraeg. Ni allaf ganmol y cynllun digon, a byswn yn annog eraill o gefndiroedd mwyafrif byd eang i gymryd mantais o'r cyfle arbennig yma.

## Podlediad newydd yn rhoi llwyfan i dalent cerddorol Cymraeg

Mae podlediad newydd, *Sŵntrack,* sy'n cael ei gyflwyno gan y darlledwr ifanc Joe Morgan, enillydd Medal Bobi Jones yn Eisteddfod yr Urdd eleni, yn rhoi'r sbotolau ar gerddoriaeth a diwylliant Cymraeg trwy lens ffres ac anffurfiol. Y rheswm dros ddechrau'r blog i Joe oedd er mwyn 'creu rhywbeth oedd yn gwneud i bawb - dysgwyr, siaradwyr rhugl a phawb yn y canol - deimlo'n rhan o'r sîn Gymraeg. '

Cyflwynir y podlediad mewn Cymraeg hygyrch, gyda chyfuniad o Gymraeg a Saesneg, gan sicrhau bod pawb - siaradwyr iaith gyntaf, ail iaith a dysgwyr - yn teimlo'n rhan o'r sgwrs.


Mae'r gyfres gyntaf yn cynnwys wyth pennod 30 munud o hyd gyda rhestr drawiadol o westeion, gan gynnwys, Endaf, Ellis Lloyd Jones, Dadleoli a gwesteion syrpreis eraill.



Joe yn holi Efan Williams o'r band Dadleoli

Mae'r podlediad ar gael ar y llwyfannau Podlediadau Arferol (Spotify, Amazon, Apple, ac Youtube) neu drwy ddilyn Instagram a Tiktok @Swntrack

*Mae Joe Morgan, sy'n wreiddiol o Gaerdydd ac sydd wedi dysgu Cymraeg, yn greawdwr cynnwys ac ar hyn o bryd mae ar ei ail flwyddyn ym Mhrifysgol Abertawe yn astudio ar gyfer gradd yn y Cyfryngau a Chyfathrebu.*



# Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd 2026

### Amser i baratoi at y Steddfod

A chyn i ni allu tynnu anadl, mae hi'n fis Rhagfyr! Byddwch chi eisoes wedi gweld cystadlaethau gwaith cartref ein heisteddfod leol ddinesig yn rhifyn mis Tachwedd y Dinesydd (ac mae'n diolch ni fel pwyllgor yn fawr i'r Dinesydd wastad). Felly mae hi'n bryd cyhoeddi'r cystadlaethau llwyfan. Mae'r rhestr o gystadlaethau isod, ond mae'n bwysig i chi fynd i wefan yr eisteddfod www.eisteddfodcaerdydd.cymru i weld y manylion ar gyfer pob cystadleuaeth, gan gynnwys y gwobrau sydd ar gael i'w hennill ar y noson.

Cofiwch hefyd am y cystadlaethau gwaith cartref, ac mae'r holl fanylion, gan gynnwys y porthol cystadlu, ar y wefan hefyd. Da chi ewch ati i gystadlu yn y gwaith cartref, ac i baratoi perfformiadau ar gyfer yr eisteddfod dros y misoedd nesaf, ac fe welwn ni chi ar 6 Chwefror 2026 yn Ysgol Glantaf.

| | |
|---|---|
| Unawd blwyddyn 4 ac iau | Grŵp llefaru oed uwchradd i ddysgwyr |
| Unawd blwyddyn 5-6 | Unawd cân werin oed uwchradd |
| Llefaru unigol blwyddyn 4 ac iau | Unawd cerdd dant oed uwchradd |
| Llefaru unigol blwyddyn 5-6 | Dawns werin/stepio unigol oed uwchradd |
| Llefaru unigol i ddysgwyr oed cynradd | Dawns werin/stepio i grŵp oed uwchradd |
| Unawd offerynnol oed cynradd | Unawd offerynnol oed uwchradd |
| Unawd cân werin oed cynradd | Ensemble offerynnol o dan 18 oed |
| Unawd cerdd dant oed cynradd | Unawd lleisiol agored |
| Dawnsio gwerin unigol oed cynradd | Unawd cân werin agored |
| Côr neu barti oed cynradd | Unawd cerdd dant agored |
| Grŵp llefaru oed cynradd | Unawd canu emyn/cân o fawl |
| Dawnsio gwerin i grŵp oed cynradd | Unawd o sioe gerdd wreiddiol Gymraeg |
| Unawd blwyddyn 7-9 | Mewn Cymeriad |
| Unawd blwyddyn 10-13 | Llefaru unigol agored |
| Llefaru unigol blwyddyn 7-9 | Grŵp llefaru agored |
| Llefaru unigol blwyddyn 10-13 | Parti neu gôr cerdd dant |
| Llefaru unigol i ddysgwyr blwyddyn 7-9 | Parti neu gôr gwerin |
| Llefaru unigol i ddysgwyr blwyddyn 10-13 | Dawns werin/stepio i grŵp agored |
| Côr neu barti oed uwchradd | Sgen ti dalent? |
| Grŵp llefaru oed uwchradd | Côr agored |

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

**Gwyn Loader – y newyddiadurwr sydd am ganfod y gwir**

Croesawyd Gwyn Loader, prif ohebydd newyddion S4C / BBC Cymru i gysur a diogelwch Bethel ym mis Tachwedd - cyferbyniad llwyr i rai o'r llefydd mae wedi gohebu ohonynt o bedwar ban y byd. Cawsom flas o'i angerdd wrth wynebu'r heriau sy'n nghlwm â'i alwedigaeth.



Dangosodd fideo o'r foment yn 2024 y bu'n agos iawn i un o daflegrau Hezbollah yng ngogledd Israel. Gwelsom glip o ddinistr y tanau gwyllt yn Awstralia yn 2020 ac un arall ar ymgyrch etholiadol Arlywyddiaeth yr UDA y llynedd. Teithiodd gyda'r Fyddin Brydeinig yn Affganistan ac adrodd ar ryfeloedd Gaza a'r Wcrain. Disgrifiodd y peryglon gafodd yng Nghairo fel cyw ohebydd adeg portestiadau'r Gwanwyn Arabaidd a thrasiedi y daeargryn ym Morocco yn 2023.

Wrth gwrs cyfeiriodd at straeon sydd wedi herio'n sylw yn nes at adre megis y problemau dyrys yng Nghadeirlan Bangor. Yn 2010 bu'n gohebu ar hanes Ahmer Rana, disgybl ysgol o Gaerfyrddin a alltudiwyd 'nôl i Bacistan oherwydd iddo dwyllo'r awdurdodau.

Talodd deyrnged i'w gydweithwyr yn y BBC am eu proffesiynoldeb a'u doniau yn gohebu trwy gyfrwng y Gymraeg. Cymharodd safon y gohebwyr hyn gyda'r gorau yn y Saesneg, ac sy'n rhoi mynediad i ni Gymry Cymraeg i straeon mawr y byd. Honnodd fod pobl mewn sefyllfaoedd dyrys yn hapusach i siarad â gohebwyr yn eu hiaith eu hunain.

Pwysleisiodd ei gred bod defnyddio iaith safonol, syml a dealladwy yn bwysig i gyrraedd ystod o wylwyr. Cyfeiriodd at yr angen i adrodd straeon yn ddi-duedd ac heb sbin, i ddod at stori yn hollol niwtral a rhoi teimladau personol o'r neulltu. 'Rhaid cyrraedd y gwir neu mor agos at y gwir â phosib.'

# Cyfarfod â Megan Roberts: Y Warden sy'n dod â'r Gymraeg i Ynys Echni





Pan gofrestrodd Megan Roberts ar gwrs Cymraeg ym mis Hydref eleni, nid dim ond dysgu iaith yn unig oedd hi - roedd yn ymwneud â chofleidio ei threftadaeth a chysylltu â'r gymuned y mae bellach yn ei galw'n gartref.

Megan yw'r warden newydd ar Ynys Echni, perl o ynys yng nghanol Môr Hafren, ychydig i'r de o Gaerdydd. Er ei bod yn anghysbell, mae'r ynys yn rhan o'r ddinas ac o dan ofal Cyngor Caerdydd. Mae'n rôl sy'n addas iawn i Megan, gan gyfuno ei chariad at gadwraeth â'i hysbryd anturus.

Yn wreiddiol o Hertfordshire, treuliodd Megan wyliau plentyndod yng Nghaerdydd yn ymweld â theulu ei mam. Doedd dim Cymraeg yn cael ei siarad gartref, ond roedd ei mam yn awyddus i gadw'r cysylltiad â Chymru - rhoddodd enwau Cymraeg i Megan a'i chwiorydd, Carys a Branwen. Ar ôl graddio yn Nottingham cafodd Megan gyfle i wirfoddoli ar yr ynys am 10 mis cyn dychwelyd i Loegr ar ôl cael gwaith yn cynnal tiroedd a pharciau nôl yn Hertfordshire. Ond pan ddaeth swydd y warden ar yr ynys yn wag yn gynharach eleni, bachodd Megan ar y cyfle.

Mae bywyd ar yr ynys yn dymhorol. Mae'r gaeaf yn golygu arosiadau byrrach, ond erbyn mis Ebrill, mae Megan a'i thîm o wirfoddolwyr yn byw yno bron yn llawn amser tan yr hydref. Mae'n ffordd o fyw unigryw, ac mae Megan eisiau ei gwneud yn fwy arbennig fyth drwy ychwanegu'r Gymraeg at ei set sgiliau.

"Byddai'n wych gallu sgwrsio â'r ymwelwyr yn y ddwy iaith," meddai hi. "Mae'n teimlo fel rhan bwysig o'r gwasanaeth rydym yn ei gynnig."

I wneud hynny'n bosibl, cofrestrodd Megan ar gwrs Cymraeg lefel Mynediad gydag Academi Cyngor Caerdydd ym mis Medi. Roedd hi eisoes wedi rhoi cynnig ar Ap, ond mae'r gwersi strwythuredig - wedi'u cyflwyno ar-lein drwy Teams - yn ei helpu i fynd i'r afael â gramadeg a'r darnau anoddach. Gall cysylltedd fod yn ansicr ar yr ynys, ond mae Megan yn manteisio ar bob cyfle, gan gynnwys digwyddiadau ar y tir mawr lle gall ymarfer gyda siaradwyr rhugl.

"Mae'n ddyddiau cynnar," meddai hi, "ond rwy'n mwynhau sŵn yr iaith. Mae'n teimlo fel rhan o'm treftadaeth." Mae hi hyd yn oed wedi dechrau anfon negeseuon testun at ei mam yn Gymraeg - cam bach ond mor bwysig i'r ddwy ohonynt.

I Megan, nid yw dysgu Cymraeg yn ymwneud â geiriau yn unig. Mae'n ymwneud â pherthyn, hunaniaeth, a gwneud Ynys Echni yn ynys lle mae ymwelwyr yn teimlo bod croeso i'w gael yn y ddwy iaith. Ac mae hynny'n rhywbeth sy'n werth ei ddathlu.



# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*



## Yr Athro E. Wyn James

**Saunders Lewis a Phenarth, y lle a newidiodd hanes Cymru – ddwywaith! (rhan 2)**

Roedd y Rhyfel Byd Cyntaf yn drobwynt pwysig i'r mudiad cenedlaethol Cymreig yn ogystal ag i'r Saunders Lewis ifanc yn bersonol.


Nodwedd drawiadol ar hanes Cymru ar hyd y canrifoedd yw'r ymdrechion cyson o genhedlaeth i genhedlaeth – yn aml iawn gan leiafrif bychan, brwd, a rwyfai yn erbyn y llif – i warchod a hybu'r iaith Gymraeg a'r hunaniaeth Gymreig 'er gwaetha' pawb a phopeth'. Enghraifft o hynny yw'r adfywiad cenedlaethol a gafwyd yn yr 1880au. Y mynegiant pennaf ohono oedd 'Mudiad Cymru Fydd', a oedd yn agos gysylltiedig â'r Blaid Ryddfrydol, prif blaid wleidyddol Cymru ar y pryd. Arweiniodd yr adfywiad hwnnw at greu sefydliadau cenedlaethol i Gymru, megis Prifysgol Cymru ffederal, Llyfrgell ac Amgueddfa Genedlaethol, ond methiant fu pob ymdrech i gael mesur o hunanlywodraeth i Gymru.

Fel y dywed Arwel Vittle a Gwen Angharad Gruffudd yn eu cyfrol ddiweddar *Dros Gymru'n Gwlad: Hanes Sefydlu Plaid Genedlaethol Cymru*, 'roedd yn ymddangos bod hunanlywodraeth i Gymru fel pwnc gwleidyddol o bwys yn farw gorn' yn y cyfnod rhwng tua chanol yr 1890au a'r Rhyfel Byd Cyntaf. Nid nad oedd ymgyrchu gwladgarol Cymreig yn y cyfnod hwnnw, ond y prif ffocws oedd ar yr iaith Gymraeg yn hytrach nag ar hunanlywodraeth wleidyddol. Gwelwyd ffurfio amryw o gymdeithasau yn ystod y blynyddoedd cyn y Rhyfel Mawr gyda'r bwriad o ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant – cymdeithasau megis Urdd y Delyn, Undeb y Ddraig Goch a Byddin Cymru (rhagflaenydd i Urdd Gobaith Cymru a sefydlwyd yn 1922). Ac nid yw hynny'n syndod o gofio'r bygythiad difrifol i barhad yr iaith o ganol yr 1890au ymlaen oherwydd y cwymp di-baid yng nghanran y rhai a'i siaradai, yn enwedig yn ardaloedd trefol a diwydiannol y de-ddwyrain. Er enghraifft, roedd yr 50% o boblogaeth Cymru a siaradai Gymraeg yng Nghyfrifiad 1901 wedi syrthio i 37% erbyn 1921.

Ond yn y blynyddoedd a ddilynodd y Rhyfel Mawr, tra arhosai hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant yn bwyslais canolog i wladgarwyr Cymreig, gwelwn nifer yn awr yn rhoi pwys o'r newydd ar gael rhyw fath o ymreolaeth i Gymru. Roedd y cyfnod yn dilyn y Rhyfel Byd Cyntaf yn un o newid mawr yn gymdeithasol, diwylliannol, gwleidyddol ac economaidd yn y Deyrnas Gyfunol ac ar draws Ewrop a'r tu hwnt. Yn un peth, roedd yn gyfnod o ailadeiladu cyffredinol yn hanes Prydain. Y nod, meddai'r prif weinidog, David Lloyd George, oedd gwneud Prydain yn wlad gymwys i arwyr fyw ynddi.

Ymunodd Prydain â'r Rhyfel Byd Cyntaf ym mis Awst 1914 pan ymosododd yr Almaen ar Wlad Belg, ac fe gawn y rhyfel yn cael ei gyflwyno i'r Cymry gan Lloyd George ac eraill fel brwydr o blaid cenhedloedd bychain fel Gwlad Belg a Serbia. Dyna a wnaeth mewn araith ddylanwadol iawn, a anelwyd yn arbennig at ei gyd-Gymry, yn y 'Queen's Hall' yn Llundain, 19 Medi 1914. Yn dilyn yr hyn a ddisgrifiwyd ganddo fel 'the greatest war song in the world', sef 'Rhyfelgyrch Gwŷr Harlech', cododd Lloyd George i draddodi araith a ddyrchafai genhedloedd bychain i'r entrychion. Meddai, er enghraifft: 'The world owes much to the little 5-foot-5 nations. The greatest art in the world was the work of little nations; the most enduring literature of the world came from little nations. […] The heroic deeds that thrill humanity through generations were the deeds of little nations fighting for their freedom.' Nid rhyfedd, felly, weld rhai pobl wedi'r rhyfel yn dadlau'n gryf fod 'cenedl fach' y Cymry hithau yn haeddu cael ei thrin yn anrhydeddus a'i hailadeiladu i fod yn gymwys ar gyfer y byd modern newydd.

Fel yn y cyfnod cyn y Rhyfel Mawr, cawn nifer o grwpiau amrywiol yn ymffurfio yn ystod ac wedi'r rhyfel er mwyn brwydro dros barhad y genedl Gymreig. Canolbwyntiai rhai, fel Urdd Gobaith Cymru, ar hyrwyddo'r iaith Gymraeg, ond roedd agenda wleidyddol ehangach gan eraill. Fel y pwysleisiodd yr



Athro Richard Wyn Jones yn Narlith Flynyddol yr Archif Wleidyddol Gymreig, 7 Tachwedd 2025, roedd y gwladgarwyr hynny'n hollti'n ddwy garfan yn fras – ymraniad sydd wedi parhau i lawr at ein dyddiau ni.

Nod rhai, y gellir eu hystyried yn 'etifeddion Mudiad Cymru Fydd', oedd gwarchod a hyrwyddo'r Gymraeg a'r hunaniaeth Gymreig, a sicrhau fod Cymru'n cael ei chydnabod yn genedl a'r hawl a'r modd ganddi i'w 'datblygu ei hun yn ei dull ei hun', ond gan wneud hynny y tu mewn i'r gyfundrefn Brydeinig a thrwy bleidiau gwleidyddol Prydeinig. Mewn geiriau eraill, roeddynt yn Gymry brwd a oedd hefyd yn Brydeinwyr balch.

Ond gwelwyd lleisiau eraill yn codi, yn enwedig ymhlith yr ifainc, a alwai am sefydlu plaid genedlaethol Gymreig i ymgyrchu o blaid ymreolaeth, er mwyn i'r Cymry (yng ngeiriau Saunders Lewis) allu cymryd y cyfrifoldeb 'am wareiddiad a dulliau bywyd cymdeithasol yn ein rhan ni o Ewrop'. A sylwer ar y pwyslais ar Ewrop, oherwydd cawn rai fel Saunders yn annog pobl Cymru i edrych y tu hwnt i Brydain, a'u gosod eu hunain ar lwyfan ac mewn cyd-destun Ewropeaidd a rhyngwladol. Rhan o'r ysgogiad dros gymryd y safbwynt hwnnw oedd methiant Mudiad Cymru Fydd i gael hunanlywodraeth i Gymru trwy weithio oddi mewn i'r fframwaith a'r pleidiau Prydeinig, ond cawsant eu hysbrydoli hefyd gan y mudiad cenedlaethol yn Iwerddon, yn ogystal â chan ymddangosiad nifer o wladwriaethau newydd, annibynnol, wrth i sawl ymerodraeth ddymchwel yn sgil y Rhyfel Byd Cyntaf.

Dau o'r amlycaf ymhlith y lleisiau newydd ifainc hyn oedd Ambrose Bebb a Saunders Lewis. Gwahoddwyd y ddau i aros gyda Griffith John Williams a'i wraig, Elisabeth, yn eu cartref, 9 Bedwas Place, Penarth, ddechrau Ionawr 1924. Ac yno y cytunodd y pedwar i ffurfio 'Mudiad Cymreig' cyfrinachol – cam hynod bwysig ar y llwybr troellog a arweiniodd at sefydlu Plaid Genedlaethol Cymru yn Awst 1925.

(*I'w barhau*)







**Cadwch mewn cysylltiad â'r Dinesydd**

**ar Twitter @Dinesydd Cdydd, ar Facebook www.facebook.com/Ydinesydd,**

**ar Instagram dinesyddcaerdydd**
**ac ar y we www.dinesydd.cymru**

# Bwytai Merch y Ddinas

## Carol yr Ŵyl



Lowri Haf Cooke

Mae'n ddydd Iau olaf Tachwedd arna i'n sgwennu'r llith hwn – diwrnod 'Diolchgarwch', neu 'Thanksgiving' taswn i yn yr Unol Daleithiau. Mae gen i gymaint o resymau i fod yn ddiolchgar eleni, ond nid dathlu dros dwrci a 'pecan pie' wnes i heddiw, ond dros bopadom a chyri Monipuri! Trefnwyd swper gyda'm chwiorydd ac un o ffrindiau pennaf fy Mam, yn yr Empire ar Heol Albany. Ac yn hynod annisgwyl fe gawson ni gwmni fy nwy nith fach, wnaeth fwynhau eu profiad cyntaf o gyrri Caerdydd gyda phowlen yr un o sglodion. Fel dyn teulu ei hun, roedd perchennog y bwyty yn wych gyda'r ddwy fach, ac fe glywsom bennill neu ddwy o hoff garol y plant, sef 'Nadolig Llawen i Chi Gyd' gan Caryl Parry Jones, fel diolch am noson mor braf.



Pori



Longa

Dyma gofio, wrth wrando, am brofiad tebyg union flwyddyn yn ôl. Bues i'n pobi mins peis gyda dosbarth o ddisgyblion yn Ysgol Tyle'r Ynn, Llansawel (Nedd a Phort Talbot), ac wrth gyflwyno'r danteithion, dyma'r dosbarth cyfan yn dechrau corws byrfyfyr o'r un garol, gan harmoneiddio'n hyfryd â'i gilydd. Bois bach, dwi'n cael croen gŵydd, a llygaid llaith, wrth gofio'r achlysur! Mae'n boncyrs o braf sut all canu gyfleu diolchgarwch, ac a dweud y gwir, roedd canu gyda Mam a'm chwiorydd yn y gegin yn un o bleserau mawr paratoadau'r Nadolig yn blentyn yma yn y ddinas.

Trwy gyd-ddigwyddiad llwyr, mae rhai aelodau o'r criw sy'n cwrdd am sesiwn Gymraeg yn yr Albany bob nos Lun wedi datgan diddordeb mewn dysgu ambell garol Gymraeg. Dechreuodd y sgwrs wedi i gôr adael y landledi i lawr, a dyma fi'n holi faint o'r criw Cymraeg oedd yn hoffi canu... a nodiodd hanner o'r criw yn frwd! Felly ar hyn o bryd dwi ar ganol ffeindio lle call i ni ymarfer (yr ali sgitls efallai?!), a trio dethol carol neu ddwy i ni gael cychwyn arni. Pwy a ŵyr os gawn ni lwyddiant – mae braidd yn hwyr arnom yn cychwyn, ond siawns y bydd modd i ni ddysgu 'Dawel Nos' ... neu 'Pwy Sy'n Dŵad Dros y Bryn', o bosib? Soniodd un aelod ei bod hi'n caru'r clasur cyfoes *Fairytale of New York* gan Shane MacGowan a Kirsty MacColl. Oes amser gyda ni drosi'r geiriau? Beth yw 'scumbag' yn y Gymraeg, dwedwch – sglyfath ynteu slebog, tybed? Mae'r holl beth yn teimlo fel pennod o'r comedi sefyllfa *Two Pints of Lager and a Packet of Crisps*, wedi'i gyfuno â ffilm Nadolig gan Richard Curtis. Beth bynnag ddigwyddiff, fydd hi'n goron ar dymor bendigedig o roi'r byd yn ei le dros beint a phaced o greision yng nghwmni ffridniau newydd.

Ac o'r dafarn at y bwytai... pa un oedd eich hoff fwyty dinesig chi eleni? Rhaid i mi ganmol llawer o lefydd sydd wedi agor eleni am wneud ymdrech gyda'r iaith Gymraeg. Ar fin agor y mae Ogof – bar gwin naturiol dan ofal angylion Wright's Wines (llawr cyntaf Arcêd y Castell, gynt) ar Heol y Brenin, Treganna. A newydd agor ers rhai wythnosau y mae caffi dymunol Pori, ar Trade Street, Glanyrafon, rhwng yr orsaf drenau ganolog a'r Afon Taf. Lle gwych am frecwast neu ginio gan gyn-gogydd a chyn-berchennog La Pantera, Sam Hooper. Heddwch i lwch y taqueria a bar tequila poblogaidd hwnnw, gyda llaw, sydd newydd gau ar Heol y Cei. Ond croeso cynnes iawn i fwydlen llawn seigiau i dynnu dŵr i'r dannedd, fel 'huevos rancheros', 'ham hock rarebit' a brecwast 'Pori'. Gwych hefyd oedd cael sgwrsio â pherchnogion Pori, sef Sam a'i bartner, Annie o Lanelwedd, sydd hefyd yno'n gweini ac yn siarad Cymraeg.

Roedd y Gymraeg hefyd i'w chlywed gan bron pawb oedd yn gweithio yn Sonder, Treganna – y seren ddiweddraf o stabal cwmni Pasture. Mwynheais fy ymweliad cyntaf a'r bwyty bywiog 'nôl ym mis Hydref, sydd yn gaffaeliad mawr i Dreganna, yn fy marn i. Ond nid nepell i ffwrdd, profodd Canna Deli ladrad ciaidd yn ddiweddar. Da chi, cefnogwch Tom a'r criw dros yr wythnosau nesaf pan fyddwch yn siopa Nadolig ym Mhontcanna. Gair olaf yn ogystal i fwyty Longa yng nghanol y ddinas. Wedi pasio'r adeilad droeon ers misoedd lawer, dyma drefnu cwrdd â hen ffrind yno am swper. Waw! Am fwydlen ffantastig, sy'n fy atgoffa i o lawer o fwytai cyfoes Istanbul. Un o'r sefydlwyr yw'r actores Pinar Ogun, a ffodd o'r Dwyrain Canol am resymau gwleidyddol, sydd hefyd wedi dysgu'r iaith Gymraeg.

Dwi mor ddiolchgar i bawb sydd yn gwneud ymdrech gyda'r iaith Gymraeg, gan gynnwys darllenwyr ffyddlon y golofn hedonistaidd hon! Mae'r maes bwytai, caffis a thafarndai yn borth naturiol i'r iaith Gymraeg, gan normaleiddio'r defnydd ohoni, a hynny gan bawb. Yn wir, allai'm helpu a meddwl hefyd am gyfraniad *pawb* ddaeth o'n blaenau yn y brifddinas, gan gynnwys fy Mam, Nia, oedd yn athrawes Gymraeg ddisglair mewn ysgolion ledled y ddinas, ac yn aelod brwd o'r Côr Polyphonic am

flynyddoedd mawr. Hoffwn i hefyd dalu teyrnged i'r diweddar Gwilym Roberts, un o sefydlwyr gwreiddiol *Y Dinesydd*, ac awdur colofn boblogaidd G.R.. Gwnaeth Gwilym gyfraniad aruthrol, ac roedd mor hyfryd i ddarllen teyrngedau, gan gynnwys nifer yn yr iaith Saesneg gan gyn-ddisgyblion iddo yn Llanedeyrn, Trelai a Thredelerch; 'The best teacher ever'... 'he made every Welsh lesson fun!'. Am esiampl gwych, ynte? Yn ôl a mi felly, yn yr un ysbryd hwyliog, at y carolau Cymraeg – ffordd arall o gynnau fflam yr iaith. Ond tybed a fydd lle yn y llety i ni gael ymarfer ambell gân? Amser a ddengys! Tan y golofn nesa felly, hoffwn i ddymuno'r un neges â charol hudolus Caryl – 'Nadolig Llawen i Chi Gyd'. A blwyddyn newydd dda i bawb! Xx

*Amser Nadolig* gan Lowri Haf Cooke (Gwasg Sebra); ar werth yn eich siop Gymraeg leol, ac ar wefan www.gwales.com

# Cymdeithas Cymru-Ariannin

**Atgofion o'r Wladfa**

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cangen De Cymru o Gymdeithas Cymru-Ariannin nos Iau, Tachwedd 18fed ym Methel, Rhiwbeina. Cafwyd cyflwyniad gan Llinos Howells am ei hamser yn Y Wladfa. Taniwyd ei diddordeb mewn perfformiad am Batagonia yn Eisteddfod Genedlaethol Y Drenewydd yn 1965. Bu'n rhaid iddi aros tan 1999 cyn ymweld â'r Wladfa a hynny yng nghwmni ei thad ar daith a drefnwyd gan Elvey a Delyth MacDonald. Yn Awst 2023 apwyntiwyd hi gan y Cyngor Prydeinig am 4 mis i weithio fel athrawes Gymraeg yn ardaloedd Y Gaiman a Threlew. Ar ddiwedd y 4 mis gofynnodd Ysgol Gymraeg Y Gaiman iddi a fyddai'n barod i aros am flwyddyn arall a dyna a wnaeth gan weithio'n wirfoddol am y cyfnod hwnnw.

Trwy luniau ar y sgrîn gwelwyd yr amrywiol weithgareddau y bu'n ymhel â nhw. Ei gobaith yw mynd yn ôl am gyfnod ym Medi 2026. Diolchwyd iddi gan Eiry Palfrey am ei chyflwyniad a ddaeth a llawer o atgofion hyfryd yn ôl i'r rhai oedd yn bresennol.

Yn y Cyfarfod Blynyddol penodwyd y canlynol:-
Cadeirydd – Rhisiart Arwel
Is-gadeirydd – Virginia Steinkamp
Swyddog Cyhoeddusrwydd – Dafydd Griffiths
Trysoryddion – Oswyn ac Elliw Richards
Ysgrifennydd – Iwan Madog
Cynrychiolydd ar bwyllgor gwaith Cymdeithas Cymru-Ariannin yn ganolog – Iwan Madog/Sandra de Pol

Trefnir nifer o ddigwyddiadau ar gyfer 2026 yn cynnwys 'Noson i Gofio Gwilym Roberts' ym Mis Mawrth. Mynegwyd cydymdeimlad gyda'r teulu ar farwolaeth aelod mor werthfawr o'r gangen a'i gyfraniad enfawr i'r Gymraeg yng Nghymru ac yn Y Wladfa. Mwy o fanylion yn rhifyn nesa'r *Dinesydd.*

*Dafydd Griffiths*

# Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd

**Archifydd Sy'n Codi Pwysau a Chodi Gwên**

Cawsom wledd amheuthun yng nghyfarfod mis Tachwedd o'r Cylch Cinio, ac nid cyfeiriad at y bwyd yn unig yw dweud hynny. Roedd y modd y cawsom ein diddanu a'n syfrdanu gan y gwestai yn brofiad i'w drysori, wrth i Sara Huws godi cwr y llen ar ei gyrfa ym maes treftadaeth a'r cyfryngau, ei diddordebau annisgwyl a'i hymgyrchoedd ar ran menywod dros wledydd Prydain. Llwyddodd i'n tywys i feysydd rhyfeddol o ddiddorol, a gwneud hynny mewn modd cartrefol, llawn ffraethineb, ond gyda sylw teilwng i themâu pwysig ac arwyddocaol.

Fel 'Swyddog Ymgysylltu Dinesig' y caiff Sara ei chyflogi gan Brifysgol Caerdydd, ac mae ei gwaith bob dydd yn golygu rhannu gwybodaeth am gyfoeth y casgliadau a'r archifau sydd ym meddiant y Brifysgol. Yn wreiddiol o Bow Street, mae hi hefyd yn ymgynghorydd i'r llywodraeth ar faterion diwylliannol. Fel petai hynny ddim yn ddigon, mae wrthi'n gweithio ar ei doethuriaeth yn ymwneud ag ymgyrchoedd merched mewn cymdeithas.

Yn ei horiau hamdden mae'n codi pwysau ar lefel gystadleuol, yn rhedeg nosweithiau cabaret ac yn arwain grwpiau i alluogi merched maint-plus i fwynhau gweithgareddau awyr agored megis heicio, mynydda, nofio gwyllt, canwio ac anturio. Roedd camu i'r maes hwnnw yn gam mawr iddi gan ei bod ar un adeg yn cael pethau'n anodd oherwydd ei bod dros ei phwysau, ac wedi ei chyflyru i gredu bod maint yn rhwystr i rai rhag medru mwynhau gweithgareddau corfforol. Bu'n rhaid ymgyrchu'n ddygn i berswadio'r cwmnïau arbenigol i ddarparu meintiau mwy mewn dillad addas i herio'r tywydd, ond fe lwyddwyd, ac erbyn hyn mae dros 15,000 o ferched maint-plus yn rhan o'r rhwydwaith 'Every Body Outdoors' y bu Sara'n chwarae rhan mor allweddol yn ei sefydlu gydag eraill.

Roedd ymgyrchu ar ran menywod wedi bod yn rhan o'i chefndir cyn hynny, yn ystod ei chyfnod yn Llundain, gan iddi ddod i gredu nad oedd menywod yn cael eu portreadu yn haeddiannol mewn arddangosfeydd. Perswadiodd ei ffrind, Sarah Jackson, i'w helpu i newid pethau, a thros nos, bron, cafwyd dros 800 o ferched yn cynnig gwirfoddoli. O fewn dim, roedd yr 'East End Women's Museum' wedi ei chreu, yn dathlu bywydau lliwgar a thrawiadol amrywiaeth o wragedd yn yr ardal enwog honno. Ers ei sefydlu yn 2015 fe ddeil i fod yr unig amgueddfa o'i bath yn Lloegr.

Mawr yw ein diolch i Sara am noson mor gofiadwy. Os hoffech ymuno â ni yn y dyfodol, anfonwch air at cylch.cinio@gmail.com a chofiwch fod croeso cynnes i bawb.

*Emlyn Davies*

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## BETHEL, PENARTH

Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Bryan yn ei brofedigaeth yn dilyn marwolaeth ei frawd.

Mae'r cyfnod yma yn llawn bwrlwm gyda'r Nadolig ar y gorwel. Ar Ddydd Iau, Tachwedd 20, bu sawl un yn y gynulleidfa mewn eglwys leol yn recordio rhaglen garolau *Dechrau Canu Dechrau Canmol* i'w darlledu yn Rhagfyr. Bu Sian Meinir yn recordio ym Methel at yr un rhaglen.

Ers wythnosau mae grŵp dan arweiniad Hazel, Jane ac Emma wedi bod yn creu addurniadau, ar thema Robin Goch, i'w gosod ar goeden Nadolig fydd yn rhan o arddangosfa o goed Nadolig yn Eglwys Awstin Sant ar Ragfyr 5, 6 a 7.

O farnu'r prysurdeb sy wedi nodweddu bywyd sawl aelod yn ail hanner Tachwedd mae'r argoelion yn dda am lwyddiant yn y Ffair Aeaf, a gynhelir yn y capel ar Ddydd Sadrwn, Tachwedd 29ain. Diolch i Gill am arwain a hefyd i nifer eraill gyda'u cyfraniadau amrywiol. Bydd elw'r ymdrech yn mynd at goffrau ein helusen MNDA.

Rydym yn ddiolchgar iawn am arweiniad goleuedig a heriol ar Suliau mis Tachwedd gan Sian Meinir a'r Parchedigion Denzil John, John Roberts, Dylan Rhys Parry ac Ifan Roberts.

Disgwyliwn i'n harwain ar Suliau Rhagfyr Denzil John, Sian Meinir a'n gweinidog Kevin. Ond bydd rhywaint o dymheru ar lawenydd arferol y Tymor, oherwydd dyma'r mis pan fydd Kevin yn ymddeol o'r weinidogaeth. Cafodd ei ordeinio yn 1999 yn Llangeler, Penboyr a Prengwyn. Daeth atom yn 2007 i fugeilio gofalaeth newydd yn cynnwys Bethel a'r Tabernacl, Y Barri. Cawsom fendith mawr ar hyd y ffordd trwy ei hynawsedd bersonol a didwylledd ei genadwri. Wrth ffarwelio, diolchwn a dymunwn nawdd y Nef arno a'i deulu. Mae Kevin eisoes wedi ymrwymo i bregethu gyda ni yn 2026 a 2027.

Yn Ionawr 2026 disgwyliwn Y Parchedig Dyfrig Rees (4), Sian Meinir (11), Mary Simmonds (18), y Parchedig Robin Samuel (25) i'n harwain.

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

**Oedfaon/Ysgol Sul [YS] 10:30 a.m.):**
**Mis Rhagfyr:**
7 – Oedfa Gymun - Delwyn Sion
14 – "9 Llith a Charol" (am 5:00 p.m.)
21 – Cyflwyniad Nadolig yr Ysgol Sul
25 – Oedfa Bore'r Nadolig (am 10:00 a.m.)
28 – Dr Ian Hughes
**Mis Ionawr 2026:**
4 – Oedfa Gymun - Delwyn Sion
11 – Plygain (am 5:00 p.m.)
18 – Parchedig Robin Samuel
25 – Parchedig Dafydd Andrew Jones

**Traddodiadau'r Dolig**
Beth yw'r pethau sy'n cael eu hystyried fel "traddodiadau'r Nadolig" yn eich cartrefi chi tybed? Oes 'na arferion teuluol yr ydych yn eu hymarfer bob Nadolig?
Mae cip ar y we yn gallu rhoi ambell syniad i ni o rai o "draddodiadau Nadoligaidd" mewn mannau eraill o'r byd.
Mae'n debyg fod 'na chwant mawr am KFC, ia "*Kentucky Fried Chicken*" yn **Siapan** ar fore'r Nadolig.
Yn **Norwy,** mae'n debyg bod y teuluoedd yn cuddio eu mopiau a'u hysgubau ar noswaith Nadolig er cadw'r ysbrydion drwg a'r gwrachod o'r gwmniaeth.
Tydi pobl y **Weriniaeth Tsiec** ddim yn malio dim am hen ysbrydion na gwrachod, ond gochelwch rhag i ddrws y tŷ agor wrth i gerdded heibio a gweld par o esgidiau yn hedfan heibio'ch pen! Dyna mae'n debyg beth sy'n digwydd yno, a merched di-briod sy'n dilyn yr arfer fel math o ddefod i weld a fyddant yn cael cariad yn ystod y flwyddyn sydd ar ddechrau!
Ym **Mhortiwgal**, cofio am y meirw yw'r arfer, ac mae'n draddodiad eu bod yn cynnwys lle wrth y bwrdd ar noswyl Nadolig ac ar ddydd Nadolig er cof am yr ymadawedigion.
Pe baech yn byw yn **Caracas, Venezuela**, byddech yn "troed-rowlio" i'r capel neu eglwys ar fore'r Nadolig, ac i hwyluso hynny, bydd strydoedd y ddinas ar gau i draffig rhwng Rhagfyr y 16eg a'r 24ain.
Ble bynnag yn y byd y byddwch dros yr Ŵyl, Nadolig Llawen iawn i holl ddarllenwyr *Y Dinesydd* oddi wrth bobl Bethlehem, Gwaelod-y-garth.

## SALEM, TREGANNA

**Nadolig**
Rydym yn edrych ymlaen at wasanaethau Nadolig yn Salem dros yr ychydig wythnosau nesaf, gan ddechrau gyda chyfraniadau'r plant a'r bobl ifanc fore Sul 14 Rhagfyr am 10.30, a bydd oedfa fer o ddarlleniadau a gweddïau Nadoligaidd ar Zoom ar 14 Rhagfyr am 6.00. Cynhelir Gwasanaeth y Goleuni yn Salem nos Sul 21 Rhagfyr am 6.00 ac Oedfa deuluol anffurfiol fore Nadolig am 9.30.
**Gweithgareddau eraill**
**Adran yr Urdd Salem** i blant oed cynradd, a does dim rhaid i chi fod yn dod i'r capel bob dydd Sul – mae'r adran yn agored i bawb. Bydd yr Adran yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd y tymor nesaf.
**Clwb Brecwast** i rieni a phlant / babanod o dan oed meithrin - bore Mercher 14 Ionawr rhwng 9.45 a 11.15
**Clwb Coffi** – Bore Gwener 12 Rhagfyr a 9 Ionawr rhwng 11.00 a 12.00. Croeso i bawb ymuno am goffi, sgwrs a chwmnïaeth.
**Clwb Llyfrau** - Cynhelir y cyfarfod ar nos Fawrth cyntaf y mis.
**Clwb Oedolion AY** – bob nos Fercher rhwng 5.00 a 6.30. Cofiwch archebu lle drwy Fenter Caerdydd.
**Clwb y Bobl Ifanc** - Mae croeso i bob person ifanc oedran uwchradd ddod i Glwb y Bobl Ifanc. Caiff ei gynnal ar nos Wener unwaith y mis, felly cysylltwch i gael rhagor o wybodaeth.

## BETHEL,RHIWBEINA

Ar ddechau Tachwedd cawsom Fore Coffi llwyddiannus gan godi dros £400 i'r Ganolfan Glyd. Trist oedd absenoldeb Gwilym Roberts a fyddai bob amser wrth y drws yn derbyn yr arian a sgwrsio gyda'r 'cwsmeriaid'. Cyn diwedd y dydd cawsom y sioc o glywed am farwolaeth Gwilym wedi cyfnod o salwch yn yr ysbyty. Bydd bwlch ar ei ôl ym Methel. Roedd yn aelod ffyddlon ac organydd di-flino a ddeuai i'r capel bob bore Sul boed law neu hindda. Yn un o'i sgyrsiau olaf roedd yn awyddus i ni ymarfer y darnau roedd wedi eu dewis ar gyfer y gwasanaeth Nadolig a'r Plygain. Felly yn unol â'i ddymuniad rydym wrthi yn ymarfer y darnau a byddwn yn eu canu dros gyfnod y Nadolig ac yn cofio'n annwyl amdano.

## EGLWYS DEWI SANT

**Digwyddiad Cerddorol**

Cynhaliwyd cyngerdd awr ginio ddydd Mawrth, 4ed Tachwedd, dan nawdd Actifyddion Caerdydd. Lumas Winds, pumawd o offerynnau chwyth, oedd yn perfformio gweithiau gan Schuller, Mozart a Bernstein.

**Y Ganolfan Glyd**

Criw EDS oedd ar ddyletswydd, ddydd Sul, 2il Tachwedd. Diolch i'r gwirfoddolwyr.

**Gwasanaeth Sul y Cofio**

Fel rhan o'r gwasanaeth Cymun ar Sul y Cofio cafwyd gweithred o gofio gyda dwy funud o dawelwch a gosod torch o babi coch ar y Gofeb Goffa yn yr eglwys.

**Gwasanaeth Holodomor**

Dydd Sadwrn, 22ain Tachwedd trefnodd Senedd Cymru wasanaeth i goffau'r Holodomor. Ystyr Holodomor mewn Wcrainaidd yw 'marwolaeth trwy ddiffyg bwyd' ac mae'r gwasanaeth yn coffau yr hil-laddiad a ddigwyddodd yn Wcráin o dan yr Undeb Sofietaidd rhwng 1932 a 1933. Y Cymro, Gareth Jones, a ddaeth â'r newyn hwn a dioddefaint pobl Wcráin i sylw'r byd. Gyda'n cysylltiadau â'r ganolfan Wcráin yn y Cilgant, daeth EDS yn lleoliad naturiol i gynnal y gwasanaeth coffa blynyddol hwn.

**Gwasanaeth Sul yr Adfent**
**O'r Tywyllwch i'r Goleuni**

Cynhaliwyd Nos Sul, 30ain Tachwedd. Roedd yn cynnwys darlleniadau, emynau a darnau cerddorol oedd yn cyfleu themâu mawr yr Adfent. Dechreuodd y gwasanaeth mewn tywyllwch ac roedd y rhan gyntaf yng ngolau cannwyll. Cymerwyd rhan flaenllaw gan y Côr. Wedi'r gwasanaeth cafwyd cyfle i brofi danteithion Nadoligaidd a chymdeithasu yn Neuadd yr Eglwys.

**Coffi a Chlonc**

Braf oedd gweld un neu ddau o wynebau newydd yn y bore Coffi a Chlonc, 15fed Tachwedd.

**Banc Bwyd Caerdydd**

Bydd cyfle i gyfrannu at y Banc Bwyd yn ystod yr Adfent.

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Ar Sul olaf Tachwedd, roedd yr Offeren yn dathlu Sul cyntaf yr Adfent a dechrau blwyddyn newydd yr eglwys.

Yr wythnos gynt roedd yn Sul olaf y flwyddyn eglwysig, pan ddathlwyd Crist, Brenin yr Holl Fyd. Gyda hynny daeth blwyddyn Jiwbili Gobaith i ben a chyfle i adnewyddu ein hymdrech i fod yn bererinion yn ein cymdeithas. Cyfle hefyd i edrych yn ôl ar ddigwyddiadau mawr yn yr Eglwys Gatholig eleni - marw'r Pab Ffransis ac ethol y Pab Leo XIV. Mae'r Pab newydd eisioes yn cael ei weld yn dilyn trywydd Ffransis, gyda'i bwyslais ar ofal am bobl ar gyrion cymdeithas ac ar yr amgylchfyd. Clywn yn ei neges bod ein ffydd yng Nghrist yn ein annog, neu hyd yn oed yn ein gorfodi, i ystyried ein cenhadaeth i'r byd y tu allan i furiau'r eglwys.

Wrth gychwyn ar gyfnod yr Adfent, cawn gyfle i ddechrau ar flwyddyn newydd, ac adnewyddu ein ffydd, gan baratoi i ddathlu dyfodiad Crist i'r byd. Wrth fwynhau'r carolau traddodiadol a'r siopa prysur – cadwn olwg ar wir ystyr yr Ŵyl.

Dathlwn y Nadolig ar Noswyl Nadolig gydag Offeren yr Wylnos – Rhagfyr 24 am 4 o'r gloch, gyda chroeso i bawb - Eglwys Gatholig Teilo Sant, Yr Eglwys Newydd.

Diolch yn fawr i'r Tad Peter Davies am ei ffyddlondeb yn cynnal yr Offeren fisol yn ystod y flwyddyn.

## EGLWYS MINNY STREET

**Adfent**

Mae doniau creadigol yr eglwys yn amlwg wrth i deuluoedd, yn eu tro, lunio golygfeydd bach o stori'r geni mewn blychau esgidiau hudolus sy'n cyd-fynd â chyfres bregethau Adfent y Gweinidog.

**Y Gymdeithas**

Cafodd cynulleidfaoedd y Gymdeithas eu haddysgu a'u syfrdanu gan Aled Huw a fu'n eu tywys drwy nifer o'r digwyddiadau – yn rhyngwladol ac yn lleol – y bu'n gohebu arnynt dros y tri degawd diwethaf, a gan Gwawr Owen, arweinydd Côr Caerdydd, a fu'n eu swyno â hanes ei thaith gerddorol gyfoethog. Diolch i'r ddau.

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul**

Ein Gweinidog fydd yn arwain yr holl oedfaon ac eithrio Sul olaf y mis. **Sul 7 Rhagfyr:** Oedfa Foreol ac Ysgol Sul (9:30) a bore coffi er budd Cymorth Cristnogol; PIMS (17:00); Oedfa Gymun (18:00). **Sul 14 Rhagfyr:** Oedfa Deulu (9:30); Oedfa Foreol (10:30) ac Oedfa Hwyrol (18:00). **Sul 15 Rhagfyr:** Dathliad Nadolig yr Eglwys (9:30) gyda pharti Nadolig i bawb i ddilyn; Oedfa Hwyrol (18:00). **Sul 21 Rhagfyr:** Dathliad Nadolig yr Ysgol Sul a PIMS (9:30) gyda pharti Nadolig i ddilyn, a Gwasanaeth Naw Llith a Charol (18:00). **Iau 25 Rhagfyr:** Oedfa'r Nadolig yng Nghapel y Crwys (10:00); pregethir gan ein Gweinidog, y Parchedig Owain Llŷr Evans. **Sul 28 Rhagfyr:** Oedfa Foreol yn unig dan arweiniad y Parchedig Lona Roberts. Bydd cyfle i gyfrannu tuag at Gymdeithas y Beibl a Chyngor yr Ysgol Sul yn oedfaon 14 a 21 Rhagfyr.

**Gweithgarwch y mis**

Bydd cyfarfod nesaf Bethania yn cael ei gynnal yng nghartref aelod nos Fawrth, 2 Rhagfyr pan fydd y ffocws eto ar ein bywyd defosiynol. Ar ba greadur, tybed, y bydd y Gweinidog yn seilio ei sgwrs yn Zoominny nos Fawrth, 16 Rhagfyr? Yn ogystal â'r cyfarfodydd wythnosol yng nghaffi cronfeydd dŵr Llanisien, bydd cyfle i gymdeithasu dros bryd o fwyd nos Sul, 21 Rhagfyr (Koinônia, 19:30). Bydd noson Nadoligaidd hwyliog y Gymdeithas nos Fawrth, 9 Rhagfyr (19:00) yng ngofal Huw Euron – a chyfle i gymdeithasu a mwynhau mins pei a diod Nadoligaidd.

**Mis Ionawr**

Bydd oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul yn dilyn y drefn arferol. Byddwn yn croesawu'r Parchedig Robert Owen Griffiths (Caerdydd) i arwain oedfaon 25 Ionawr.

Cynhelir cyfarfodydd Bethania ar 6 a 27 Ionawr (19:00). Bydd y Gymdeithas yn dathlu'r Plygain yn Eglwys Sant Teilo, Amgueddfa Sain Ffagan am 14:00 brynhawn Sul, 11 Ionawr. Bydd Wyn Jones yn trafod 'Seibr-ddiogelwch a sgamiau' nos Fawrth, 20 Ionawr (19:00). Ar nos Fercher 21 Ionawr, o dan nawdd Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd, ein Gweinidog fydd yn arwain Gwasanaeth Wythnos Weddi dros Undeb Cristnogol yng nghapel Minny Street. Bydd cyfle i gynorthwyo gyda gwaith elusennol yr eglwys yn ystod y mis.

**Diolch**

Fel eglwys, diolchwn o waelod calon i Dr Bethan Jones am 30 mlynedd o wasanaeth fel ysgrifennydd yr eglwys. Bu ei chyfraniad yn aruthrol ac yn amhrisiadwy. Dymunwn yn dda iddi.

**Cydymdeimlo**

Cofiwn yn annwyl a diolchgar am Indeg Wynn Jones (Cyncoed). Cydymdeimlwn â'r teulu cyfan ac â'i chyfeillion niferus.

**Llongyfarch**

Yn ddiweddar, cafodd nifer o aelodau'r eglwys gyfle i fwynhau gweld ein cyd-aelod Matthew Rhys yn serennu mewn perfformiad ysgubol fel Richard Burton yn y ddrama *Playing Burton*. Llongyfarchiadau mawr iddo.

## EGLWYS Y CRWYS

**Cydymdeimlad**

Un o blant y Crwys oedd Gwilym Roberts a chyda thristwch mawr y daeth y newydd am ei farwolaeth. Mae wedi gadael gwaddol sylweddol ar ei ôl ac mae dyled Cymru gyfan iddo yn enfawr. Mae ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu a'r llu o'i ffrindiau. Diolch amdano.

**Cyfarchion**

Mae John Irfon Davies wedi symud o'r Ysbyty Athrofaol i Gartref Gofal Y Forge yn Trelai. Anfonwn ein cyfarchion a'n dymuniadau gorau iddo.

Llongyfarchiadau i Ffion Harker oedd yn rhan o Gerddorfa Ieuenctid Caerdydd a'r Fro a gymerodd ran mewn cyngerdd yn yr Albert Hall yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau hefyd i Tegwen Velios a oedd yn rhan o Gwmni Drama Everyman a gyflwynodd y ddrama *'The Ghost Managers'* yn Nghwrt Insole. Da iawn chi'ch dwy.

**Cymorth Cristnogol**

Cafwyd Bore Coffi hynod o lwyddiannus yn dilyn yr oedfa fore Sul, Tachwedd 16eg. Gwnaed elw o dros £250 tuag at waith Cymorth Cristnogol. Diolch i Siân Griffiths ac aelodau'r pwyllgor am y trefniadau.

**Y Gymdeithas**

Cafodd storm Claudia y gorau arnom a bu'n rhaid cynnal cyfarfod o'r Gymdeithas ar Zoom. Er hynny cafwyd cyfarfod diddorol ac addysgol yng nhwmni Mr Ion Thomas yn annerch ar 'Lleufer dyn yw llyfr da'. Diolch iddo am ei gyfraniad ac i Cerian Angharad am y trefniadau.

Rydym yn edrych ymlaen at y Gwasanaeth Dechrau Blwyddyn ym mis Ionawr o dan arweiniad Ms Hannah Thomas.

**Yr Ysgol Sul**

Mae'r plant a'r ieuenctid wedi bod yn hynod brysur yn casglu ac yn pacio bocsus esgidiau ar gyfer Teams4You fydd yn cael eu hanfon erbyn y Nadolig i blant yn Nwyrain Ewrop. Llongyfarchiadau a da iawn chi. Rydym mor falch ohonoch.

Cynhaliwyd cyfarfod arbennig o'r Ysgol Sul, gyda'r hwyr, gyda Chwestiwn ac Ateb o dan arweiniad y Parch. Glyn Tudwal Jones. Roedd y plant, a Glyn, wrth eu boddau. Seiat go iawn. Diolch i Glyn am ei arweiniad ac i Hannah Thomas am drefnu.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr, gweithwyr, a dosbarthwyr Y Dinesydd. Diolch i bob un ohonoch am eich gwaith

.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn yn fawr gyda Meleri Perkins ar farwolaeth ei thad annwyl.

Mawr yw ein cydymdeimlad hefyd gyda Helen a Menna Gibbard wrth iddynt golli Alun, mab a brawd gwerthfawr iawn.

**Taith i Dde Corea**

Bu ein gweinidog Emyr yn mynychu cynhadledd o dan nawdd 'World Evangelical Alliance' yn Ne Corea yn ddiweddar. Mae cysylltiad arbennig rhwng Cymru a De Corea gan mai'r cenhadwr o Gymru, Robert Jermain Thomas, aeth â'r efengyl Gristnogol i'r wlad gyntaf. Mawr yw'r teimlad o ddyled a diolch i Gymru oherwydd hyn. Cafodd Emyr gyfle i rannu am y sefyllfa Gristnogol yng Nghymru mewn cwrdd gweddi gyda phum mil yn mynychu! Mae'n galondid i wybod bod Cristnogion yn Ne Corea yn gweddïo drosom ni yng Nghymru.

**Paned a Sgwrs**

Cawsom fore hapus iawn gyda'n gilydd wrth i ni geisio creu ychydig o addurniadau Nadolig. Nia Brown oedd ein tiwtor medrus ac amyneddgar a mawr oedd ein diolch iddi am ei syniadau gwych.

**Bore Siarad Cymraeg**

Bydd y cyfarfod nesaf ar ddydd Sadwrn 13 Rhagfyr pan fydd Emyr James yn sôn am draddodiad Y Plygain. Cynhelir y cyfarfod yn Hyb Rhiwbina (CF146EH).

**Trefniadau'r Nadolig**

Croeso mawr i chi ymuno gyda ni yn ein dathliadau Nadolig.

| | |
|---|---|
| 7/12/25 10am | Oedfa Deuluol |
| 14/12/25 5pm | Carolau yng Ngolau Cannwyll. |
| 21/12/25 5pm | Cymanfa Garolau |
| 25/12/25 | Oedfa Bore Nadolig |
| 4/1/26 5pm | Y Plygain. |

## Clwb Canna Dim gormod o bwdin

Rydym yn falch iawn o allu trefnu gigs gyda bandiau gwych bob ryw ddeufis, a chafwyd noson i'w chofio eto fis Tachwedd yng nghwmni Pwdin Reis a Dadleoli

Cafwyd noson eclectig go-iawn, o gerddoriaeth newydd, ond cyfarwydd, gyda Dadleoli, ac er bod y band mor ifanc, mae nhw'n gerddorion hollol arbennig. 'Sdim rhyfedd eu bod yn mynd o nerth i nerth, ac allan yn gigio'n rheolaidd, gan gynnwys galwadau i gymryd rhan mewn gwyliau o bwys. Mae'r sain mor gyffrous, a'r aelodau mor broffesiynol, ond hefyd mor agos-atoch-chi a chynnes. Mae Clwb Canna wedi bod yn falch o'u cefnogi o'r dechrau, a dymuniadau gorau i chi yn y dyfodol.

Cafwyd llond llwyfan o gerddoriaeth gyfarwydd gan Pwdin Reis yn ddiweddarach, hefyd, er fod y caneuon yn mynd ychydig ymhellach yn ôl mewn amser efallai ...? A buan iawn yr oedd y llawr yn llawn o bobl yn "dawnsio" i sain poblogaidd y band hwn o'r gorllewin – aeth pethau'n fywiog, ond heb fod yn wyllt. Cerddorion gwych, eto, a band sydd wir yn creu awyrgylch parti a mwynhau a noson arbennig yng nghwmni ffrindiau. Roedd y gynulleidfa i gyd wrth eu boddau, ac wedi mwynhau'n arw.

Cynhelir gig nesaf Clwb Canna nos Wener 20fed Chwefror gyda Geraint Lovgreen ac Alis Glyn. Dyma benwythnos y gêm rygbi rhwng Cymru a'r Alban a bydd tocynnau ar werth cyn bo hir.



*Dadleoli a Pwdin Reis*

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

Yn dilyn Cyllideb y Canghellor ar 26 Tachwedd 2025, cafodd rhestr hir o fesurau eu cyhoeddi i geisio lleihau'r pwysau ar gyfrifon y wlad. Dyma grynodeb o rai o'r mesurau pennaf:

* Cafodd y *lwfansau treth incwm ac Yswiriant Gwladol* eu rhewi am dair blynedd arall, tan Ebrill 2031, bydd yn golygu bydd mwy yn talu treth wrth i gyflogau godi dros amser.
* Cynnydd mewn cyfraddau *treth incwm ar difidendau* o 2% i drethdalwyr cyfradd sylfaenol ac uwch, a hynny o fis Ebrill 2026 ymlaen.
* Cynnydd o 2% mewn cyfraddau *treth ar incwm llog ac elw rhent* o fis Ebrill 2027 ymlaen. Bydd unigolyn sy'n ennill £20,000 o incwm llog neu elw rhent yn gweld cynnydd o £400 yn eu bil treth o 2027 ymlaen.
* O Ebrill 2027, bydd y lwfans blynyddol ar gyfer *cyfrifon cynilo arian parod ISA* yn gostwng o £20,000 i £12,000 i'r rheini sydd o dan 65 oed. Mae hyn yn golygu byddai angen i unigolyn hefyd dalu £8,000 i'w ISA Stociau a Chyfranddaliadau i ddefnyddio'r lwfans ISA llawn o £20,000. Bydd rheini sydd dros 65 oed yn parhau i allu cyfrannu £20,000 i'w cyfrifon cynilo ISA.
* Dim newid i'r symiau di-dreth gallwch gymryd o'ch pensiwn a dim newid chwaith i gyfraddau treth incwm ar ryddhad treth o *gyfraniadau pensiwn*.
* *Pensiwn Gwladol* i gynyddu 4.8% ym mis Ebrill 2026 (cynnydd o £575, ar gyfartaledd).
* O fis Ebrill 2029 ymlaen, bydd *Yswiriant Gwladol* bellach yn ddyledus ar gyfraniadau pensiwn o dros £2,000 trwy gynlluniau aberthu cyflog.
* *Treth tanwydd* wedi'i rewi tan Awst 2026, ond bydd yn codi 5c rhwng Medi 2026 a Mawrth 2027. Yn ogystal, bydd yna *dreth newydd ar geir trydan* o fis Ebrill 2028 ymlaen o 3c am bob milltir a yrrwyd. Er enghraifft, byddai gyrrwr car trydan sy'n gyrru 10,000 o filltiroedd y flwyddyn yn talu treth o £300 y flwyddyn.
* Dim newid i gyfraddau *treth ar eiddo* sy'n parhau yn 18% a 24%.
* Cyhoeddodd y Llywodraeth bydd modd trosglwyddo'r lwfans o £1,000,000 ar gyfer *rhyddhad treth etifeddiaeth ar gyfer busnesau a ffermydd* rhwng pâr priod. Yn sgîl y newid hwn, dylai fferm fach, deuluol o hyd at tua 250 erw allu osgoi talu treth etifeddiaeth.
* Dilewyd y cap dau blentyn ar elfen budd-dal plant *Credyd Cynhwysol*.

*Byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am newidiadau sylweddol i drethi a chyhoeddiadau ariannol y Llywodraeth!*

*Am fwy o fanylion cysylltwch â ni drwy:*
*Huw aledaccounts.comneu 029 206945245*

---

# Merched y Wawr Caerdydd

**Nerys Howell a Bwyd y Dolig**

Roedd siaradwr mis Tachwedd yn wyneb cyfarwydd i lawer ohonom. Mae Nerys Howell yn adnabyddus am ei gwaith ar y teledu ac yn gyhoeddus yn hyrwyddo bwyd a diod Cymreig.

Esboniodd Nerys fod ei diddordeb mewn coginio wedi dechrau dan ddylanwad ei mam a'i dwy fam-gu, o deuluoedd ffermio yn Sir Gâr. Roedd paratoi a mwynhau bwyd iach, lleol yn rhan ganolog o'u bywyd. Pan symudodd ei rhieni i Donypandy, bu Nerys yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Rhydfelen. Ei phenderfyniad pwysicaf oedd cofrestru ar gwrs coginio yn Ysgol Prue Leith yn Notting Hill. Oddi yno, datblygodd ei gyrfa ym myd bwyd, maeth a choginio.  Mae wedi ymddangos yn rheolaidd ar S4C a BBC Cymru a theithio'r byd yn hyrwyddo bwyd o Gymru. Yn 2005, sefydlodd ei chwmni, Ymgynghoriaeth Bwyd Howell, sy'n arbenigo mewn darparu cyngor a chymorth i gwmnïau bwyd a diod yng Nghymru. Erbyn hyn, mae wedi cyhoeddi tri llyfr coginio  poblogaidd yn Gymraeg.

Wrth adrodd ei hanes, bu Nerys wrthi'n paratoi tri rysáit Nadoligaidd gan wneud i'r cyfan edrych mor syml. Paratôdd fowlen o golslo bresych coch gyda dresin arbennig a chaws glas Cymreig, briwgig cartref oedd cymaint yn fwy blasus na brwigig siop, a mins peis bach â thopin meringue. Cawsom bob un flasu'r coleslaw a'r mins peis – trêt go iawn ar ôl sesiwn ddifyr.



# Y DIGWYDDIADUR

## Rhagfyr

**Mawrth, 9 Rhagfyr**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd (ar y cyd â Changen y Felin). Noson yng nghwmni Côr Canna, yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed, CF23 6SE (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Manylion: Eluned Press (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).

**Mawrth, 9 Rhagfyr**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Noson Nadoligaidd yng nghwmni Huw Euron, am 7.00pm yn festri'r capel (CF24 4ER). Croeso cynnes i bawb.

**Iau, 11 Rhagfyr**
Menter Caerdydd. 'Sgwrs y Mis' gan yr Athro Christine James ar y testun 'Hoff Gerddi'r Nadolig'. Trwy gyfrwng Zoom am 7.30pm. Awgrymir cyfraniad o £5 y sgwrs neu £20 am y flwyddyn. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Iau, 11 Rhagfyr**
Noson lansio *H.R. – Gŵr â Chymru yn ei Galon*, cyfrol gan Glyn Tomos am H. R. Jones, un o arloeswyr Plaid Cymru, yn Ystafell 'First Space', Chapter, Treganna, CF5 1QE, am 7.00pm. Bydd Dr Aled Eirug yn holi'r awdur ar y noson. Bydd stondin gan Siop Caban yn gwerthu copïau. Croeso.

**Iau, 11 Rhagfyr**
Menter Caerdydd yn cyflwyno 'Laffwyl!' yn nhafarn Parc Fictoria (CF5 1JL) am 7.30pm. Tocynnau: £10 (£12 wrth y drws). Manylion www.mentercaerdydd.cymru

**Sadwrn, 13 Rhagfyr**
Bore Siarad Cymraeg (lefel ganolradd ac uwch). Dewch i ymarfer eich Cymraeg a gwrando ar sgwrs gan y Parch. Emyr James am y Plygain, yn Hyb Rhiwbina (CF14 6EH) am 10.30am. Yn rhad ac am ddim. Nid oes angen cofrestru ymlaen llaw. Dan nawdd Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 13 Rhagfyr – Gwener, 2 Ionawr**
Theatr Sherman a Theatr Cymru yn cyflwyno 'Biwti a Brogs' gan Gwawr Loader. Ar gyfer plant 3–6 oed. Manylion pellach: https://www.shermantheatre.co.uk/event/biwti-a-brogs/?lang=cy neu ffoniwch 029-2064-6900.

**Llun, 15 Rhagfyr**
Menter Caerdydd. Mewn Tiwn Nadolig yng nghwmni'r delynores werin Bethan Nia, yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbina, am 11.30am. Am ddim, ond croesewir cyfraniadau wrth y drws neu ar y wefan ymlaen llaw: https://mentercaerdydd.cymru/event/cyngerdd-nadolig-mewn-tiwn-cy. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch rachel@mentercaerdydd.cymru

**Llun, 15 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Cynhelir Plygain yng nghwmni partïon plygain lleol yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.00pm. Bydd casgliad ar gyfer y Ganolfan Glyd, elusen sy'n cynorthwyo'r digartref yng Nghaerdydd. Bydd paned i ddilyn. Croeso cynnes Manylion penrhiwalltycnap@gmail.com

**Mercher, 17 Rhagfyr**
Carolau yng nghwmni Côr Merched Plastaf yn Eglwys St John's, Cilgant Sant Ioan, Treganna (CF5 1NX), am 7.00pm. Nid oes angen prynu tocynnau ymlaen llaw; derbynnir cyfraniadau wrth y drws.

**Sul, 21 Rhagfyr**
Cymanfa Garolau yng nghapel y Tabernacl, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD, am 5.00pm. Fe'i trefnir gan Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd. Croeso cynnes i bawb

## Ionawr

**Sadwrn, 3 Ionawr**
Taith gwylio adar fisol dan arweiniad Eirian a Gwilym Dafydd, yn dechrau am 10.30am. Am ddim. Am ragor o wybodaeth, anfonwch at eirianagwilym@gmail.com

**Sul, 4 Ionawr**
Plygain yn y Tabernacl, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD, am 5.00pm. Fe'i trefnir gan Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd. Croeso.

**Sadwrn, 10 Ionawr**
Bore Siarad Cymraeg (lefel ganolradd ac uwch). Dewch i ymarfer eich Cymraeg a gwrando ar sgwrs gan Ruth Morgan ar y testun 'Antur y Wladfa ym Mhatagonia', yn Hyb Rhiwbina (CF14 6EH) am 10.30am. Yn rhad ac am ddim. Nid oes angen cofrestru ymlaen llaw. Dan nawdd Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd. Croeso cynnes i bawb.

**Sul, 11 Ionawr**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Dathlu'r Plygain yn Eglwys Sant Teilo, Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, am 2.00pm. Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 13 Ionawr**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Gethin Russell-Jones ar y testun 'Mam a Bletchley Park', yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed, CF23 6SE (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 2.30pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Manylion: (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).

**Iau, 15 Ionawr**
Merched y Wawr, Cangen y Felin. Noson yng nghwmni yr awdur Eurgain Haf, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Heol Kelston, Yr Eglwys Newydd, CF14 2AA, am 7.30pm. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Janet James ar 07810-363232. Croeso.

**Gwener, 16 Ionawr**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. 'Mam a Merch': Menna Elfyn a Fflur Dafydd yn cael eu holi gan Dr Rhiannon Marks, trwy gyfrwng Zoom am 7.15pm. I ymaelodi (£10 am y flwyddyn) ac i dderbyn y ddolen Zoom, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, yr Athro E. Wyn James (JamesEW@caerdydd.ac.uk). Croeso cynnes.

**Llun, 19 Ionawr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Bydd Dr Rowland Wynne yn siarad ar y testun 'Gwifrau'n Galw' yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.30pm. Manylion pellach oddi wrth yr Ysgrifennydd, Gwyneth Stephens (penrhiwalltycnap@gmail.com). Croeso i aelodau hen a newydd.

**Mawrth, 20 Ionawr**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. 'Seibr-ddiogelwch a Sgamiau' yng nghwmni Wyn Jones, am 7.00pm yn festri'r capel (CF24 4ER). Croeso cynnes i bawb.

**Llun, 26 Ionawr**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Sgwrs gan Phil Jonathan o Brifysgol Caerhirfryn ar y testun 'Ystadegaeth Amgylcheddol a Theorem Bayes', am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Am fanylion pellach ac i dderbyn y ddolen Zoom, anfonwch at CymdeithasWyddonol@gmail.com

**Anfonwch fanylion ar gyfer y Digwyddiadur at yr Athro E. Wyn James, Manylion ar dud. 2**

# Lansio CD Newydd Côr CFI

Mewn da bryd ar gyfer y Nadolig, fe lansiodd Côr CF1 ei CD mewn cyngerdd arbennig yn Eglwys Sant Teilo, Yr Eglwys Newydd ddechrau mis Rhagfyr.

Mae pob darn ar y CD yn rhai arwyddocaol yn nhaith y côr ac yn nodi digwyddiadau arbennig. Ceir cymysgedd o alawon traddodiadol a threfniannau cyfoes, fel trefniant C. Rand Mathieson o Dros Gymru'n Gwlad – trefniant a berfformiwyd gan y côr yn Eisteddfod Llangollen 2022 pan gipion nhw'r teitl Côr y Byd. Mae yma hefyd drefniannau gwreiddiol, a gomisiynwyd gan y Côr, o'r alawon gwerin Mil Harddach Wyt a Suo Gân. Ac yn ogystal â'r traddodiadol, ceir darnau clasurol cyfoes gan rai o hoff gyfansoddwyr y côr, fel Eric Whitacre gyda pherfformiad teimladwy o Merch Rhyfeddod, darn a berfformiwyd ganddynt yn Eisteddfod Genedlaethol Pontypridd. Cafodd y gân sy'n dwyn teitl y CD 'Cerddwn Drwy'r Tywyllwch' ei chyfansoddi gan Richard Vaughan, cyfeilydd ac is-arweinydd y Côr, yn ystod y cyfnod clo pan ddaeth dros 55 o gorau ar draws Cymru at ei gilydd i berfformio'r darn yn rhithiol.

Roedd pawb yn y gyngerdd lansio yn diolch mai perfformiad yn y cnawd oedd hwn. Ac i'r rhai na chafodd gyfle i fynychu'r gyngerdd ewch ati da chi i brynu'r CD a mwynhewch!






*Recordio'r CD*

## Chwefror

**Llun, 2 Chwefror**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd. Yng Ngwesty'r 'New House', Heol y Ddraenen, Draenen Pen-y-graig (*Thornhill*), Caerdydd, CF14 9UA. Ymgynnull am 7.00 ar gyfer 7.30pm. Siaradwr gwadd: y darlledwr Rhodri Llywelyn. Croeso cynnes i bawb. Os am ddod, cysylltwch â Paul Morgan: cylch.cinio@gmail.com

**Mawrth, 3 Chwefror**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Noson 'Wrth fy Ngwaith' yng nghwmni Elen Hughes ac Ifan Patchell, am 7.00pm yn festri'r capel (CF24 4ER). Croeso cynnes i bawb.

**Gwener, 6 Chwefror**
Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. Manylion pellach: https://www.eisteddfodcaerdydd.cymru/

**Gwener, 6 Chwefror**
Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan Dr Ceridwen Lloyd-Morgan ar y testun 'Gwen John a Llydaw'. Trwy gyfrwng Zoom am 7.30pm. Y tâl aelodaeth am y flwyddyn yw £15; y pris mynediad i gyfarfod unigol yw £5 (ond yn rhad ac am ddim i aelodau). I dderbyn gwybodaeth ynghylch sut i dalu, a thrwy hynny dderbyn y ddolen Zoom: cymrodorioncaerdydd@gmail.com. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 7 Chwefror**
Taith gwylio adar fisol dan arweiniad Eirian a Gwilym Dafydd, yn dechrau am 10.30am. Am ddim. Am ragor o wybodaeth, anfonwch at eirianagwilym@gmail.com

**Mawrth, 10 Chwefror**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Elfyn Hughes ar y testun 'Tynnu lluniau gwell (gyda ffôn)', yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed, CF23 6SE (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 2.30pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).

**Iau, 12 Chwefror a Sadwrn, 14 Chwefror**
Polka Theatre a Theatr Iolo yn cyflwyno 'Taclus', ar gyfer plant 3–7 oed. Manylion pellach: https://www.shermantheatre.co.uk/event/talcus/?lang=cy neu ffoniwch 029-2064-6900.

**Sadwrn, 14 Chwefror**
Bore Siarad Cymraeg (lefel ganolradd ac uwch). Dewch i ymarfer eich Cymraeg a gwrando ar sgwrs gan Rhian Williams ar y testun 'Llunio croeseiriau', yn Hyb Rhiwbina (CF14 6EH) am 10.30am. Yn rhad ac am ddim. Nid oes angen cofrestru ymlaen llaw. Dan nawdd Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd. Croeso cynnes i bawb.

# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

## Hat-tric y Capten: Cymru yn rhy gryf i Gogledd Macedonia.

Roedd y gêm hon yn un hollbwysig i Gymru, gyda'r ddwy ochr yn ymladd i osgoi syrthio i Bot 4 ar gyfer y gemau ail-gyfle. I Gymru, roedd y cyfrifoldebau'n glir, ennill a sicrhau lle yn Pot 2 yn ogystal â gêm gartref yn y rownd gyntaf o'r gemau ail-gyfle. I Harry Wilson, roedd hi'n noson arbennig hefyd oherwydd hon oedd ei gêm gyntaf fel capten i'r Wal Goch.

Daeth Cymru allan ar dân, gan reoli meddiant a gorfodi Gogledd Macedonia i amddiffyn yn ddwfn. Ar ôl 15 munud, cafodd David Brooks ei faglu i lawr gan Stojchevski yn y bocs, a rhoddodd y dyfarnwr gic o'r smotyn i Gymru. Ar ôl dwy funud, fe wnaeth Harry Wilson, y capten newydd, sleifio y bêl i'r gornel dde isaf i roi Cymru ar y blaen.

Dim ond tair munud yn ddiweddarach, daeth yr ail gôl. Croesiad perffaith gan Brennan Johnson, Brooks yn bwrw'r bêl gyda'i gyffyrddiad cyntaf, a buan wedyn tarodd y bêl Stojchevski ar ei ffordd i mewn. Er i Gymru ymddangos mewn rheolaeth lwyr, llwyddodd Gogledd Macedonia i daro'n ôl ar y 22ain munud gyda pas hyfryd gan Velkoski i ryddhau Miovski, a llithrodd Darlow ar yr eiliad dyngedfennol gan adael Miovski i saethu'r pêl i'r gornel chwith isaf.




Er hynny, ni thorrodd rhythm Cymru o gwbl. Ar y 34ain munud, tarodd Neco Williams y pyst ar ôl saethiad bwerus. Ond o fewn dwy funud, fe sicrhawyd trydydd gôl y Cymry. Sgiliau arbennig gan Johnson, cyn tanio saethiad o du allan i'r bocs i'r gornel dde uchaf. Gôl sydd yn sicr yn un o'r gorau a welwyd ym Mhencampwriaeth y rhagbrofion hyn.

Roedd Cymru wedi dominyddu'r hanner cyntaf yn llwyr, a byddai Gogledd Macedonia wedi bod yn ffodus i fod dim ond dau ar ei hôl hi.

Parhaodd Cymru i chwarae yn yr ail hanner yn yr un ffordd. Ar y 56ain munud, cafwyd gôl gan Daniel James ar ôl symudiad tîm hyfryd. Brooks yn dod o hyd i Wilson yn y bocs, yna Wilson yn fflicio'r bêl nôl i James i'w tharo i'r gornel chwith isaf.

Daeth seren y noson, Harry Wilson, i'r amlwg unwaith eto ar y 74ain munud gyda chic rydd berffaith, cylchiad hyfryd i'r gornel dde uchaf, gan wneud hi'n 5–1. Dim ond pum munud yn ddiweddarach, cafodd Wilson ei daro i lawr gan Velkoski yn y bocs a chymerodd y capten y cyfrifoldeb eto. Sleidiodd y bêl i'r gornel chwith isaf i gwblhau ei hat-tric gyntaf i Gymru ar ei ddiwrnod cyntaf fel capten.

Cyn i'r gêm orffen, fe wnaeth Cymru daro'r seithfed gôl. O gic gornel gan Sorba Thomas, cipiodd Isaak Davies y bêl yn yr awyr ac roedd Nathan Broadhead yno i daro adref o bellter byr. Roedd yn goron addas ar berfformiad cwbl argyhoeddiadol.

Doedd neb yn disgwyl i'r gem yma orffen fel hyn ond hefyd, does neb yn cwyno. Nawr, mae Cymru yn paratoi am ei gêm cyntaf yn y gemau ail-gyfle yn erbyn Bosnia ac os byddant yn ei curo bydd angen chwarae naill ai Yr Eidal neu Gogledd Iwerddon gartref.

*Wil Feeney*

## Cymru yn Ysbrydoli: Ffarwel i Fishlock - Wil Feeney sy'n cyflwyno'r hanes

Ar brynhawn emosiynol yn Stadiwm Dinas Caerdydd, dychwelodd Cymru i'r cae am y tro cyntaf ers yr Ewros hanesyddol a ffarweliwyd â'u chwaraewr gorau erioed, Jess Fishlock. Er i Awstralia ennill y gêm 2–1 gyda gôl hwyr, bu'n berfformiad ysbrydoledig gan Gymru sydd yn awgrymu dyfodol disglair.

Dechreuodd Awstralia gyda bwriad clir gan ddangos ei safon o fewn y munudau agoriadol. Gwelwyd Nath Katrina Gorry yn bwrw'r trawst yn y bedwaredd munud ac yna llwyddwyd i greu cyfle arall o gornel ar ôl chwe munud.

Cafodd gyrfa ryngwladol ddisglair Jess Fishlock ei chydnabod gyda chymeradwyaeth yn y ddegfed munud, ac roedd yn ymddangos bod hyn wedi codi balchder Cymru gyda Fishlock ei hun yn anelu dros y trawst dair munud yn ddiweddarach.

Roedd Cymru yn galw am gic o'r smotyn pan ymddangosodd Ceri Holland ei bod wedi'i chael ei thynnu lawr gan Clare Hunt yn yr 18fed munud ond anghytunodd y dyfarnwr.

Ar ôl 27 munud, aeth Awstralia ar y blaen drwy gic-rydd gan Courtney Nevin, yn dilyn symudiad creadigol gan Sam Kerr oedd wedi creu dryswch i gôl-geidwad ifanc Cymru.Bron i Gymru ymateb yn syth pan ddaeth Hannah Cain yn agos ar ôl 32 munud ac ar ôl 36 munud pan fu bron i gamgymeriad amddiffynnol arwain at gôl i'w rhwyd ei hun gan Awstralia. Er i Awstralia ddominyddu'n gynnar, tyfodd Cymru i fewn i'r gêm a lleihau'r pwysau gyda sawl cyfle agos.

Daeth Cymru allan ar ddechrau'r ail hanner gyda fwy o egni. Profodd Fishlock y gôl-geidwad gyda saethiad cryf o du allan i'r blwch dim ond dwy funud i fewn i'r ail hanner. Arweiniodd hyn at Gymru'n dod yn gyfartal ar ôl 54 munud yn sgîl gôl wych gan Mared Griffiths.

Ymatebodd Awstralia gyda dwy ergyd ond bu amddiffyn cadarn gan Gymru. Daeth yr eiliad dyngedfennol yn hwyr yn y gêm. Yn yr 84ain croesodd Kyra Cooney-Cross y bêl i'r blwch a sgoriodd Caitlin Foord. Wedyn, bu bron i Foord ychwanegu trydydd gôl i Awstralia ychydig funudau yn ddiweddarach, ond gwnaeth Middleton-Patel arbediad da ar ôl 86 munud

Wrth i'r cloc gyrraedd 90 munud, eilyddiwyd Jess Fishlock gan dderbyn cymeradwyaeth gynnes a haeddiannol gan y cefnogwyr sydd wedi ei hedmygu am bron i ddwy ddegawd.

Enillodd Awstralia y gêm diolch i gôl hwyr gan Caitlin Foord, ond gadawodd Cymru'r cae gyda'u pennau'n uchel. Bu eu gwydnwch, bwriad ymosodol, a'u hymdrech yn yr ail hanner yn ddigon i ddangos bod y tîm ifanc yn gallu cystadlu gyda'r goreuon.

I Jess Fishlock, efallai nad dyna'r diwedd perffaith i'w gyrfa rhyngwladol ond mae'n gadael fel prif sgoriwr yn hanes Cymru gyda 48 o goliau ac fel ffigwr mwyaf eiconig yn hanes pêl-droed merched Cymru.

Ac er gwaethaf y canlyniad, awgrymodd y perfformiad hwn yr hyn y mae Fishlock ei hun wedi'i gredu tro ar ôl tro, mae dyfodol tîm Cymru yn un disglair iawn.

*Wil Feeney*

## Aled Biston sy'n cloriannu dechrau campus Clwb Cymric i'r tymor yn haen 4



Mae'n dymor newydd ac yn gynghrair newydd i Glwb Cymric yn dilyn llwyddiant y llynedd o sicrhau dyrchafiad i'r South Wales Premier League. Er bod Cymric wedi codi un gynghrair mae eu perfformiadau campus ar y cae wedi parhau gyda'r clwb yn ail yn y gynghrair ar hyn o bryd. Dechreuodd y clwb y tymor gyda dwy gêm gwpan yn erbyn Treharris a Giants Grave, gyda dwy fuddugoliaeth yn sicrhau eu lle yn y rowndiau nesaf.

Ely Rangers oddi cartref oedd gêm gyntaf Cymric yn y gynghrair, a goliau gan Huw Barwick a Nico Clwyd yn sicrhau'r fuddugoliaeth. Colli yn erbyn Penydarren sydd ar frig y gynghrair oedd hanes ail ornest y tymor, a hynny wedi i Cymric ildio gôl munud olaf. Ond wedi'r golled honno fe aeth Cymric ar rediad o bedair gêm yn y gynghrair heb golli, gyda gêm gyfartal yn erbyn Port Talbot a buddugoliaethau o 6-1, 3-1 a 4-0 yn erbyn Afan United, Bridgend Street a Porthcawl Town.

Profodd taith oddi cartref yn erbyn Aber Valley yn dasg anodd i Cymric wrth iddyn nhw golli 1-0, ond nid oedd y canlyniad wedi digalonni'r chwaraewyr y ormodol wrth iddyn nhw sgorio saith gôl yn erbyn Llantwit Fardre yr wythnos ganlynol. Roedd gêm ddiwethaf y clwb yn y gynghrair yn fuddugoliaeth o 4-1 yn erbyn Porthcawl, gyda'r gêm nesaf yn erbyn FC Cwmaman, sydd yn agos i waelod y gynghrair.

Yn anffodus i'r clwb ni fydd modd ailadrodd llwyddiant Cwpan Cymru'r llynedd wedi iddynt golli yn erbyn Clydach o'r drydedd haen yn yr ail rownd gymhwyso. Collodd y clwb ar giciau o'r smotyn yn erbyn Margam Youth Centre yng Nghwpan W John Owen hefyd, gan olygu mai'r gynghrair yn unig sydd yn weddill i Glwb Cymric frwydro am weddill y tymor. Wedi 10 gêm yn y gynghrair mae'r clwb yn yr ail safle, ac yn gobeithio gallu parhau gyda'i lwyddiant cyn y Nadolig. Mae'r clwb wedi cadw saith llechen lân y tymor hwn hyd yma ac wedi sgorio 43 o goliau mewn 16 o gemau.




# Gweithgareddau'r Urdd dros Dymor Yr Hydref

**Cogyddion a Phobyddion y Dyfodol - Cystadlaethau Cogurdd a Poburdd**

Yn ystod mis Tachwedd, cynhaliwyd cystadlaethau Cogurdd a Phoburdd yn y rhanbarth. Roedd dros 400 o blant wedi cymryd rhan a hoffwn longyfarch pawb a fu'n cystadlu. Dyma'r ennillwyr eleni ac rydym yn dymuno pob lwc iddyn nhw yn Eisteddfod Môn!

**Rhanbarth Gorllewin Caerydd a'r Fro**

**Cogurdd Blwyddyn 4, 5 a 6**
1af - Betsan Thomas – Ysgol Treganna
2ail - Nia Davies – Ysgol Iolo Morgannwg
3ydd - Heti Broad – Ysgol Creigiau
**Cogurdd Blwyddyn 7, 8 a 9**
1af - Harri Wynne – Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr
2ail – Lily Maia Bertera – Ysgol y Fro
3ydd – Zander Hudson-Evans – Ysgol y Fro
**Cogurdd Blwyddyn 10 a dan 19**
1af – Coco Massey – Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr
2ail – Rhys Atherton – Ysgol Bro Morgannwg
3ydd – Oscar Thomas – Ysgol Bro Morgannwg
**Poburdd Blwyddyn 4, 5 a 6**
1af - Siena Gardner Puar – Ysgol Dewi Sant
2ail – Ifan Baker – Ysgol Treganna
3ydd – Noa Douch – Ysgol Sant Baruc
**Poburdd Blwyddyn 7-13**
1af – Elliw Bullman – Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr
2ail – Lily Maia Bertera – Ysgol y Fro
3ydd – Jini Dobson – Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr a Menna Jones – Ysgol Bro Morgannwg

**Rhanbarth Dwyrain Caerdydd**

**Cogurdd Blwyddyn 4, 5 a 6**
1af – Greta Seaman – Ysgol Gymraeg Pwll Coch
2ail - Efan Morgan – Ysgol y Berllan Deg
3ydd – William Lloyd Evans – Ysgol Mynydd Bychan
**Cogurdd Blwyddyn 7, 8 a 9**
1af - Owain Rhys Holland – Ysgol Gyfun Bro Edern
2ail – Tobias Drayton – Ysgol Gyfun Bro Edern
3ydd – Lloyd Adams - Glantaf
**Cogurdd Blwyddyn 10 a dan 19**
1af – Ray Pequito – Ysgol Gyfun Bro Edern
2ail – Holly Lewis – Ysgol Gyfun Bro Edern
3ydd – Oscar Thomas – Ysgol Bro Morgannwg
**Poburdd Blwyddyn 4, 5 a 6**
1af – Fletcher French – Ysgol Glan Ceubal
2ail – Harrison Craig – Ysgol Glan Morfa
3ydd – Oliver Davies – Ysgol y Wern
**Poburdd Blwyddyn 7-13**
1af – Florian French – Ysgol Gyfun Glantaf
2ail – Owain Rhys Hollad – Ysgol Gyfun Bro Edern
3ydd – Eleri Thomas – Ysgol Bro Edern

**Cystadleuthau Chwaraeon**
Mae mis Tachwedd wedi bod yn gyfnod hynod brysur i chwaraeon ieuenctid gyda llu o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn cystadleuthau a thwrnameintiau ledled y sir.









**Cynhadledd #Fel Merch**
Cymerodd dros 250 o ferched ran yn y drydedd gynhadledd #FelMerch lle cafwyd cyfle I glywed siaradwyr fel Rhian Wilkinson, Rheolwr Tîm Pel-droed Merched Cymru, Rosie Eccles a Ela Letton- Jones. Roedd hefyd cyfle i fynychu nifer o weithdai chwaraeon yn trafod pynciau fel anafiadau chwaraeon, calithinetics a maeth.

## Rhif: 258




**Ar Draws**
1. 'I gael gweld ein ------ -----
   Aned heddiw, ddydd Nadolig' (Rh.P) (6,6)
7. Adre a'th Noel ar yn ail o'i ddewis (5)
8. Deg o'r gwaelod (5)
9. Rhedeg n'ol ar y staer ar yn ail (3)
10. Tir gwlyb ac arogl pentref yn Sir Gar (9)
11. Dynion o Loegr yn eu tro yn anturio (6)
12. 'Duw'n ----- o hyd, at raid dynol-ryw
    Yw'n cysur i gyd a'n cymorth i fyw' (HCW) (6)
15. Onid oeddwn yn dangos neilltuolrwydd (9)
17. Gwasgu'r archif nes ei fod yn offeryn yn dy law (3)
18. 'Y Baban a anwyd ym Methlem
    Orchfygodd bob ----- y sydd' (JE) (5)
19. Pleidleisio drosto fo a ti ganol nos (5)
21 *gweler 6 lawr* (6,6)

**I Lawr**
1.Cymysgu Ann a'i gŵr, pel a mwd blith draphlith (12)
2. Nifer o blith y ffrwythau (3)
3. Coeden y pencerdd nefol efallai (6)
4. Ffordd hawdd i ben dy geffyl (9)
5. Mae hon yn swnio fel un bert (5)
6. *a 21 ar draws*
   'Hen addewid Eden odiaeth
   Wele heddiw ddaeth i ben;
   ----- ----- ----- -----
   O flaen ein llygaid heb un llen' (Anad) (4,8)
7. Di-sŵn yw'r deuddeg (5)
10. Diwedd yr haf (9)
13. Offeryn i'w chwarae'n dawel (5)
14. Y diafol yn bod yn esgeulus (6)
16. Llif yn swnio'n llwyd (5)
20. '----- Bethlem dref
    Awn yn fintai gref' (WI) (3)



**Enillydd Croesair Rhif 256**
**Emrys Griffiths, Rhosgadfan**

**Atebion Croesair Rhif 256**
**Ar Draws**
4. Adnabod 8. Ymroad 9. Briallen 10. Ystrad 11. Eden 12. Gramadeg 18. Castellwr 20.Twrw 21. Aileni 22. Elfennu 23. I'w sail 24. Gwireddu

**I Lawr**
1. Cymysgu 2. Bratiau 3. Banana 5. Dirmygus 6. Afallen 7. Oferedd 13. Dicllonedd 14. Allweddau 15. Treiglo 16. Dwy law 17. Gwneir 19. Triawd

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Chwefror, 2026
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina,
Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10





***Clybiau Chwaraeon yr Urdd***

***Cogurdd a Phoburdd - tud.26***

**Dathliadau Dolig yn y Ddinas**

Wrth i'r flwyddyn ddirwyn i ben, cofiwch gadw llygad ar ein gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer y newyddion diweddaraf am ein gweithgareddau, cyrsiau a theithiau ar gyfer 2026. Bydd cyfle i ail-gofrestru ar gyfer sesiynau poblogaidd megis Sgwrs y Mis, pilates a'r Gerddorfa Ukulele a chlywed y diweddaraf am gyrsiau undydd a gweithgareddau i ddysgwyr.

**Gweithdy Torch Nadolig**

Bydd cyfle i wneud torch Nadolig nos Iau, 4 Rhagfyr yn Ysgol Pencae yng nghwmni Rhian Shugar. Darperir yr holl ddeunyddiau, diod a mins pei. Beth am gael criw o ffrindiau at ei gilydd i gael ychydig o hwyl wrth greu addurn tymhorol hyfryd ar gyfer y drws.

**Carolau Cymraeg i Ddysgwyr a Siaradwyr Newydd**

Rydym yn falch o gynnal dathliad Nadoligaidd i ddysgwyr ar y cyd â staff Dysgu Cymraeg Caerdydd ac Amgueddfa Sain Ffagan ar fore Gwener, 5 Rhagfyr. Yn dilyn paned a sgwrs, byddwn yn cerdded draw i gapel Pen-rhiw i ganu carolau Cymraeg a mwynhau awyrgylch hudol yr Amgueddfa Werin.

Bydd Andy, un o griw'r bore coffi misol ar Zoom, yn cynnal cwis â naws Gymreig yn ein sesiwn olaf cyn y Nadolig ar fore Gwener, 19 Rhagfyr a bydd y sesiynau sgwrsio yn yr hybiau yn parhau hyd y Nadolig. Llaneirwg – 2 a 16 Rhagfyr am 10.30; Rhydypennau – 4 a 18 Rhagfyr am 10.30; Rhiwbeina – 5 a 19 Rhagfyr am 10.30.

**Dathliad Nadolig Mei Gwynedd a'r Gerddorfa Ukulele**

Bydd Criw'r Clwb Oedolion yn ymuno â Mei Gwynedd a'r Gerddorfa Ukulele i ddathlu'r Nadolig yn nhafarn y Victoria Park, nos Fercher, 10 Rhagfyr. Mae croeso i bawb ymuno yn yr hwyl gyda'r noson yn dechrau am 8.00yh a'r mynediad yn rhad ac am ddim.

**Hoff Gerddi Nadolig**

Yr Athro Christine James fydd yn ymuno â ni ar Zoom nos Iau, 11 Rhagfyr i ddathlu'r Nadolig drwy farddoniaeth. Mewn sgwrs fydd yn llawn ysbryd yr ŵyl bydd Christine yn rhannu rhai o'i hoff gerddi Nadolig. Cofiwch ail-gofrestru ar gyfer blwyddyn newydd o sgyrsiau yn 2026 gyda'r un gyntaf ar nos Iau, 22 Ionawr. Bydd Alwyn Evans, yn adrodd hanes George W Hall, a deithiodd o Gymru i Orllewin Awstralia ym 1895 a datblygu un o fwynglod.

**Laffwyl Dolig**

Yr MC Aled Richards fydd yn cadw trefn ar y digrifwyr Mel Owen, Jeff Japers, Gruffudd Eifion Owen a Beth Jones i sicrhau noson llawn gwenu a chwerthin. (Nos Iau, 11 Rhagfyr)

**Cerddoriaeth Nadoligaidd**

Y delynores werin Bethan Nia fydd yn diddanu'r gynulleidfa yng Nghanolfan Beulah fore Llun, 15 Rhagfyr wrth i ni ddathlu'r Nadolig gyda gwledd o gerddoriaeth.

**Siôn Corn**

Mae pob tocyn wedi'i werthu ar gyfer Groto Siôn Corn yn yr Eglwys Norwyaidd ar ddydd Sadwrn, 20 Rhagfyr. Mae Siôn Corn yn ymweld â Chaerdydd fel rhan o Farchnad Nadolig GM Notebooks lle bydd cyfle i brynu anrhegion amrywiol o waith llaw traddodiadol a chynnyrch cynaliadwy i fwydydd lleol a danteithion tymhorol. Dewch draw rhwng 12.00 a 4.30 i wneud ychydig o siopa Dolig!

**Amser Stori Nadolig**

Llyfrgell Penylan fydd lleoliad ein sesiwn Amser Stori Nadolig ar fore Iau, 18 Rhagfyr am 10.30, gyda stori a chrefft ar gyfer plant 0-4 oed a'u gofalwyr.

**Edrych ymlaen at 2026**

Bydd ein cyrsiau a gweithgareddau yn ail-ddechrau ym mis Ionawr felly cofiwch ail-gofrestru ar y wefan mewn da bryd. Bydd sesiynau Amser Stori, Y Clwb Oedolion a'r sesiynau sgwrsio yn yr hybiau hefyd yn dychwelyd yn y flwyddyn newydd a chynhelir Bwrlwm a'r Cynllun Gofal yn ystod hanner tymor mis Chwefror. Mae rhestr o deithiau ac ymweliadau hanner cynta'r flwyddyn bellach i'w gweld ar y wefan gan ddechrau gyda theithiau tywys i Arddangosfa Artes Mundi yn yr Amgueddfa Genedlaethol ar fore Mawrth, 20 Ionawr ac i Archifau Morgannwg ar fore Mawrth, 3 Chwefror. Mae'r ddau ymweliad yma'n rhad ac am ddim a'r niferoedd yn gyfyngedig.

**Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn a Nadolig Llawen i chi i gyd.**

**Hwyl yr Ŵyl ym Mro Morgannwg .**

Yn Menter Bro Morgannwg, rydym wedi curadu rhaglen o ddigwyddiadau Nadoligaidd arbennig eleni, rhywbeth at ddant pob corrach. Ymhlith yr uchafbwyntiau bydd y Noson Nadoligaidd a gynhelir ar yr ail o Ragfyr, sy'n cynnwys canu cymunedol anffurfiol i gyfeiliant band pres, Ysgolion Iolo Morganwg a Dewi Sant, ynghyd â'r gwestai arbennig Mei Gwynedd.

Ar 12 Rhagfyr, bydd y cydweithio hapus gyda Dysgu Cymraeg y Fro yn parhau wrth gynnal Parti Nadolig Blynyddol Palmerston. Llond lle o stondinau, crefftau, dawnsio, a chyfle i gwrdd â Siôn Corn. Yna, ar 16 Rhagfyr, mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, byddwn yn cyflwyno Amser Stori dymhorol yn awyrgylch prydferth a hudolus Gerddi Dyffryn.

Wrth gwrs, does dim byd tebyg i gwis Nadolig! Ar 16 Rhagfyr, dewch â'ch ffrindiau i'r Three Horseshoes Country Inn am gwis llawn cwestiynau tymhorol mewn awyrgylch hamddenol a chynnes.

Mae ysbryd y Nadolig yn rhodd y byddwn yn ei gario i'r flwyddyn newydd wrth i ni barhau i ymestyn y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol yn y Fro. Ewch i'n gwefan am y manylion diweddaraf - www.menterbromorgannwg.cymru neu ddilynwch ni ar Facebook ac Instagram.

## Nadolig Llawen
## a
## Blwyddyn Newydd Dda.